



At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Perfformiad

Dyddiad: 19 Ionawr 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 25 IONAWR 2024 am 10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 (copi ynghlwm).

5 HYRWYDDO PRESENOLDEB YSGOL AC YMGYSYLLTIAD MEWN ADDYSG (Tudalennau 17 - 94)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r sefyllfa bresennol i aelodau o ran presenoldeb ysgol ac ymgysylltiad mewn addysg. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio barn y Pwyllgor ar y dull a ddefnyddir gan yr awdurdod addysg lleol i gynyddu ymgysylltiad disgyblion mewn addysg.

10.10 am – 11.00 am

~~~~ EGWYL (11.00 am – 11.15 am) ~~~~

**6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD** (Tudalennau 95 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Prif Lyfrgellydd (copi ynghlwm) sy'n amlygu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn erbyn Safonau Cenedlaethol a cheisio sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad.

11.15 am – 12.00 pm

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 115 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**8 ADBORTH GAN CYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is-  
Gadeirydd)

Ellie Chard  
Bobby Feeley  
Martyn Hogg  
Carol Holliday  
Alan Hughes

Paul Keddie  
Diane King  
Terry Mendies  
Andrea Tomlin

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

David Lloyd  
Collette Owen

Neil Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Terry Mendies a Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd)

Aelodau Arweiniol – Y Cynghorydd Julie Mathews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Stratego

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (Swyddog Monitro (GW), Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E), Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (EH), Cydlynwyr Craffu (RhE a KE) ac Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Diane King ac Andrea Tomlin.

Rhoddodd y Cydlynwyr Craffu wybod i'r Pwyllgor fod Arweinydd y Grŵp Annibynnol wedi rhoi'r gorau i'w rôl ar y Pwyllgor a'i fod wedi penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley i wasanaethu yn ei le fel un o gynrychiolwyr y Grŵp

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad personol oedd yn peri rhagfarn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynwyr Craffu cyn y cyfarfod.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023.

### Materion yn codi:

Eitem 5, 'Diweddariad ar Adroddiad Arolwg Ysgol Gatholig Crist y Gair' – cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 ar gyfer craffu pellach. Pwysleisiodd yr Is-Gadeirydd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad archwilio a monitro materion sy'n ymwneud ag addysg ar draws y Cyngor, yn enwedig darpariaeth yr awdurdod addysg lleol o ran gwasanaethau a chefnogaeth i ysgolion.

Eitem 8, 'Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai a Digartrefedd Sir Ddinbych' – hysbyswyd yr aelodau y byddai rhagor o waith craffu'n cael ei wneud ar gyflawniad y cynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2024.

***Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

## **5 ADRODDIAD AR Y GOFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw), gan atgoffa'r aelodau mai pwrpas y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol oedd nodi'r digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a Chynllun Corfforaethol 2022 – 2027.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau wrth yr Aelodau fod yr adroddiad diweddar ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol wedi'i lunio yn dilyn adolygiad ym mis Medi, a bod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud. Roedd yr atodiadau yn yr adroddiadau yn amlygu:

1. Atodiad 1 – crynodeb o'r newidiadau sylweddol.
2. Atodiad 2 - tabl a dadansoddiad o dueddiadau'r Risgiau Corfforaethol.
3. Atodiad 3 – gwybodaeth fanwl am y 13 o Risgiau Corfforaethol.
4. Atodiad 4 – nodyn atgoffa o'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg - cytunwyd ym mis Tachwedd 2022 i'w adolygu ym mis Chwefror 2024.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddefnyddio atodiadau 2 a 3 ar gyfer nodi meysydd i graffu ymhellach arnynt er mwyn llywio eu cynllun gwaith i'r dyfodol.

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad y bu'r adolygiad yn un cynhwysfawr er mwyn adlewyrchu'r newid o ran strwythur ac amgylchiadau'r Cyngor. Bu'n gyfle hefyd i uno a dad-ddwysau rhai risgiau.

Yn yr adolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2023, roedd yna 20 o Risgiau Corfforaethol. O'r risgiau hynny, roedd 9 ohonynt wedi cael eu cyfuno/ dad-ddwysau i lefel gwasanaeth (cyfeirir at hyn ym mharagraff 4.5 yn yr adroddiad). Fe ychwanegwyd dwy risg newydd at y Gofrestr – 51 a 52 – er mwyn adlewyrchu sefyllfa ariannol yr Awdurdod, gan arwain at gyfanswm o 13 o risgiau a nodwyd. Nid oedd saith o'r risgiau hynny yn gyson â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg h.y. yn ddigon difrifol i fod ar y Gofrestr.



Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Swyddogion:

- Bu'r Tîm Cynllunio Strategol yn ymgysylltu â swyddogion y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r timau rheoli gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â materion rheoli perfformiad a risg.
- Roedd mwy o risg o ran gallu oherwydd y pwysau cyllidebol, ac roedd hynny'n risg gyffredin ar draws pob gwasanaeth.
- Roedd y Tîm Cynllunio Strategol hefyd yn cefnogi proses y gyllideb trwy gasglu gwybodaeth ynghylch effaith toriadau yn y gyllideb ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol trwy ganolbwyntio ar garfannau allweddol mewn cymunedau a nodau lles yn yr Asesiad o'r Effaith ar Les.
- Roedd proses y gyllideb yn un gynhwysfawr ac ar y gweill, gan weithio trwy weithdai ar gyfer cynigion i ymdrin ag arbedion mawr. Yn ogystal, roedd y cynigion yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau ac roedd cyfarfod Teams yn cael ei drefnu ar gyfer eu hystyried. Er yr arferai'r Gyllideb fod yn 'ddigwyddiad' blynyddol, bydd yn broses barhaus wrth symud ymlaen.
- Roedd y papur Cyfeiriad Strategol, a rannwyd yn flaenorol â'r Aelodau, yn nodi ei fod yn anelu i fod yn Gyngor sy'n trawsnewid beth/ sut mae'n gweithio, yn hytrach na rhoi'r gorau i wasanaethau yn raddol.
- Roedd gwybodaeth am y cynigion wedi'i dosbarthu i'r Aelodau (gweithdai a chyfarfodydd Teams ar gyfer sesiynau holi ac ateb gyda'r Pennaeth Gwasanaeth). Roedd cyfle i'r Aelodau godi pryderon ynghylch unrhyw gynigion yn y cyfarfodydd briffio hynny.
- Yna, roedd rhaid i bob cynnig fynd trwy'r broses ddemocrataidd agored a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau e.e. y Cabinet. Os nad oedd yr Aelodau'n hapus â'r penderfyniad a wnaed, roedd cyfle iddynt alw'r penderfyniad i mewn i graffu arno.
- Roedd y gyfraith yn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Awdurdodau Lleol yn cael eu rhannu'n swyddogaethau gweithredol (trwy'r Cabinet, penderfyniad dirprwyedig yr Aelod Arweiniol neu benderfyniad dirprwyedig y Swyddog Arweiniol) a swyddogaethau anweithredol (y Cyngor). Ni allai'r Cyngor wrthdroi penderfyniad y Cabinet. Gallai'r Pwyllgor Craffu herio penderfyniad a gofyn iddo gael ei ailystyried, ond y Cabinet oedd i wneud y penderfyniad terfynol.
- Roedd y Parodrwydd i Dderbyn Risg yn dangos y lefel o risg a ffeirir gan y Cyngor, yn hytrach na lefel y risg ar hyn o bryd.
- Yn genedlaethol, mynegwyd pryder ynghylch plant yn cael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio. Gofynnir am adroddiad gwybodaeth gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant, ynghylch a oedd unrhyw blant yn Sir Ddinbych wedi'u lleoli mewn eiddo heb ei reoleiddio.
- Wrth recriwtio Gweithwyr Gofal, roedd yr Awdurdod yn recriwtio ar sail gwybodaeth, sgiliau a phrofiad – nid rhywedd ac oedran. Roedd yr holl ddarpariaethau Cydraddoldeb (Deddf 2010) yn rhan o'r broses recriwtio.
- Yn y sector gofal, yn benodol o ran y swyddi ar y graddfeydd isaf, roedd hi'n anodd cystadlu â chyflogau uwch y sectorau manwerthu a lletygarwch.
- Yn genedlaethol, nid oedd digon o weithwyr cymdeithasol cymwys i lenwi'r swyddi gwag.
- Bu i'r Awdurdod barhau i symleiddio ei broses recriwtio ac ystyried addasrwydd swyddi â graddfeydd gyrfaoel, er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran recriwtio.

- Byddai twyll ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol bob amser - o ystyried nifer y gweithwyr, cwmnïau/ unigolion allanol a'r gwariant. Roedd hi'n bwysig cael rheolyddion clir ar gyfer atal, rhwystro, ymchwilio ac ymdrin â thwyll.
- Roedd yr Awdurdod eisoes yn talu mwy na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, felly ni fyddai'r cynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn cael unrhyw effaith bellach ar ystyriaethau cyllidebol.
- Mewn perthynas â Risg 45 (Newid Hinsawdd), y risg oedd methu â gweithredu'n ddigon cyflym ar amgylchiadau o fewn rheolaeth y Cyngor, a allai arwain at beryglu ei enw da. Nodwyd mai cofrestr o risgiau i fusnes yw'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol – nid y gymuned.
- Er na allai'r Cyngor newid y risg o ddigwyddiad difrifol annisgwyl neu heb ei gynllunio, gallai newid ei brosesau paratoi trwy ei gynlluniau parhad busnes.

Yn ystod y trafodaethau, cyfeiriodd yr Aelod Arweiniol Cydraddoldeb, y Cynghorydd Julie Matthews, at yr awgrym a wnaed gan y Cynghorydd Terry Mendies - mewn perthynas â thargedu merched hŷn wrth recriwtio gweithwyr gofal, yn hytrach na merched ifanc a allai gymryd cyfnod mamolaeth ar draul talwyr ardrethi – fel awgrym cwbl amhriodol a gwahaniaethol tuag at ferched. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr Awdurdod yn recriwtio heb roi ffafriaeth i neb mewn perthynas ag unrhyw nodweddiad gwarchoddedig, a bod unigolion sy'n gwneud cais am swyddi yn cael eu recriwtio ar sail eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad, yn hytrach na'u rhywedd neu eu hoedran.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch:

- Nifer y plant dan ofal yr Awdurdod (a'r rheswm dros hynny) sydd wedi'u lleoli mewn eiddo heb ei reoleiddio (risg 50);
- Y ffigyrau ar gyfer risg 31 - Y risg o dwyll a llygredd yn arwain at gollu arian neu enw da ac o bosib yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Felly, ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd: yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, i dderbyn a chydabod –***

- (i) y newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn yr adolygiad ym mis Medi 2023 (Atodiad 3), gan gynnwys statws pob risg yn erbyn Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 4); a***
- (ii) derbyn a chymeradwyo'r ddogfen gryno (Atodiad 2) sy'n cynnwys statws lliwiau a thueddiadau.***

**Ar y pwynt hwn, cymerodd y pwyllgor egwyl o 15 munud.**

## **6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM HUNANASESIAD Y CYNGOR O'I BERFFORMIAD**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a Phennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Cyngor yn erbyn y Cynllun Corfforaethol hyd at ddiwedd chwarter 2, Medi 2023.

Roedd newidiadau o ran cyflwyniad yr Adroddiad Diweddarau Perfformiad o gymharu â chwarter 1, a amlygwyd o dan adran 4.4 yn yr adroddiad, er mwyn ei gwneud yn haws nodi llwyddiannau corfforaethol a meysydd ar gyfer gwella.

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr Adroddiad Diweddarau Perfformiad yr wythnos gynt, gan nodi dau faes perfformiad ar gyfer gwella, a ychwanegwyd at adroddiad chwarter 2:

- Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai – rhoi diweddariad ar berfformiad yn erbyn y dangosydd yn ymwneud â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed.
- Bod y Sefydliad yn rhoi trosolwg o'r cynnig diwylliannol a ddarperir ar draws gwasanaethau'r Cyngor fel rhan o'r cynllun i ddatblygu'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Ddiwylliannol a sut y byddai hynny'n gysylltiedig â lles personol ac economaidd.

Rhagwelwyd y byddai cynnal perfformiad yn dueddol o fod yn heriol wrth symud ymlaen, o ystyried y pwysau ariannol a'r gostyngiadau anochel i wasanaethau yn sgil hynny.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad drosolwg o'r adroddiad, gan egluro mai'r amcan oedd nodi statws y mesuryddion perfformiad ar gyfer pob prosiect, gweithgaredd a naw thema'r Cynllun Corfforaethol.

Ar y cyfan, roedd y sgoriau perfformiad ar gyfer:

- Mesuryddion – oren (derbyniol) a
- Phrosiectau – melyn (profi rhwystrau) ar wahân i'r thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal oedd â sgôr coch (blaenoriaeth ar gyfer gwella) oherwydd y problemau parhaus o ran tlodi a diweithdra.

Wrth grynhoi statws y gwahanol Themâu Corfforaethol, dywedodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad:

Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl -

- Roedd ymyriad newydd 'Fy Nghartref Sir Ddinbych' wedi arwain at lai o unigolion yn datgan eu bod yn ddigartref. Roedd llai o bobl ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD), ond roedd y niferoedd yn parhau'n uwch na'r hyn roedd yr Awdurdod yn dymuno ei weld ar y rhestr.
- Bu i bwysau ariannol a diffyg capasiti brofi'n heriol o ran prosiectau effeithlonrwydd ynni cartrefi'r Cyngor er mwyn paratoi ar gyfer Safonau Ansawdd Tai newydd Cymru.

Sir Ddinbych ffyniannus -

- Mae rhai heriau o ran prosiectau mwy yn Ninbych a'r Rhyl yn parhau, oherwydd oedi a phrinder cyllid. Rhagwelwyd y byddai'r cyhoeddiad diweddar o ddyraniad Ffyniant Bro 3 yn mynd i'r afael â'r problemau hyn.
- Gwelwyd cynnydd o ran twristiaeth a gwariant cysylltiedig.

- Roedd cyflogau a swyddi yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer gwella. Cafodd strategaeth economaidd ei llunio, gan ddefnyddio gallu ac arbenigedd allanol gan Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus -

- Roedd rhai heriau o ran cyflwyno'r dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl.

Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu -

- Roeddent yn parhau i aros am fesuryddion cyrhaeddiad gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu deall perfformiad ysgolion o fewn y cyd-destun dan sylw.
- Roedd y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau i brofi oedi – cafodd diweddariadau penodol eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Roedd Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, Llwybrau a Sir Ddinbych yn Gweithio yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well -

- Mae trwsio difrod i ffyrdd a phalmentydd yn parhau'n destun pryder.
- Mae'r terfyn cyflymder 20mya wedi cael ei gyflwyno bellach.

Sir Ddinbych mwy gwyrdd -

- Rydym yn parhau i chwilio am ddulliau ar gyfer mesur y gostyngiad mewn tunelledd carbon o gadwyni cyflenwi.
- Roedd paratodau ar y gweill i adolygu'r strategaeth.

Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal -

- Roedd y rhaglen prydau ysgol am ddim yn ehangu.
- Gwelwyd cynnydd yn y ffigyrau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ynghylch trais domestig a throseddau mynych. Deallwyd mai newid i'r dulliau adrodd oedd yn gyfrifol am y cynnydd.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn â gweithwyr yn cwblhau modiwlau cydraddoldeb ac roedd sylw'n cael ei roi i hyn.

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu -

- O ganlyniad i'r pandemig a'r cyfnodau clo yn ei sgil, gwelwyd gostyngiad yn nifer y plant sy'n parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cynlluniau ar y gweill i ddenu mwy o blant i feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg.
- Roedd gwaith ar y strategaeth ddiwylliannol wedi'i oedi ers tro, ond roedd llawer o brosiectau ar y gweill ar gyfer cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy leoliadau treftadaeth, twristiaeth, llyfrgelloedd a pharciau cenedlaethol a'r prosiectau ffyniant bro ac ati.

Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad -

Roedd bod yn agored a thryloyw yn rhan o werthoedd craidd y Cyngor. Sefydlwyd y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad er mwyn cynnwys mwy ar y diwylliant sefydliadol. Roedd gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer yr holl aelodau ym mis Ionawr 2024, er mwyn ystyried sut roeddent yn dymuno cymryd rhan.

Gan ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Swyddogion:

- Roeddent ar ei hôl hi o ran perfformiad (3 mis) ac felly o bosibl y byddai materion ynghylch gallu gweithwyr yn cael eu cofnodi ym mis Rhagfyr – o ystyried y cyfyngiad a gafodd ei weithredu ym mis Medi ar swyddi gwag. Byddai effaith newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hadrodd yn yr un modd.
- Efallai y bydd angen ailystyried trothwyon/ mesuriadau, gan ddibynnu ar effaith y newidiadau arfaethedig.
- Byddai angen cynnal trafodaethau â'r Cabinet ar y posibilrwydd o gael llai o Themâu Corfforaethol, yn sgil y toriadau i'r gyllideb.
- Dim ond y swyddogaethau yr oedd y Cyngor yn talu amdanynt oedd ar gael trwy system rheoli perfformiad Verto - a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer adrodd yn hytrach na rheoli perfformiad.
- Byddai'r Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad yn edrych ar ddiwylliant y Cyngor ac yn ystyried sut y caiff data Gwybodaeth Perfformiad ei ddefnyddio.
- Roedd yn ddyletswydd statudol i adrodd ar y saith maes llywodraethu allweddol, a nodwyd yn yr adroddiad. Fe wnaethant gyfeirio at faterion megis y prosesau cynllunio corfforaethol, rheoli perfformiad, rheolaeth ariannol, prosesau caffael ac ati, trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn hytrach na'r swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Roedd disgwyl i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) gael ei ddiweddarau ddiwedd 2025 neu ddechrau 2026.
- Wrth ddatblygu'r thema ar gyfer Sir Ddinbych teg, diolch a mwy cyfartal, cyrchwyd gwybodaeth o nifer o ddata cenedlaethol oedd ar gael ynghylch tlodi, gan gynnwys Data Cymru.
- Gellid caffael ffynonellau i'w cynnwys yn y Fframwaith Perfformiad o gyfeiriadau gwahanol, megis:
  - Cyhoeddiadau cenedlaethol
  - Llywodraeth Cymru
  - Cynlluniau gwasanaeth
  - Byrddau Strategol
- Efallai bod modd i'r Cyngor wella cynhyrchiant trwy ddulliau megis Deallusrwydd Artiffisial (AI) / ChatGBT. Byddai angen i'r defnydd ohono roi sylw i egwyddorion moesegol a'r ddeddfwriaeth diogelu data (GDPR).

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch canran y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11, nad ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu fod adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn y flwyddyn newydd ar Sicrhau Ymgysylltiad mewn Addysg.

Yn dilyn y drafodaeth

Bu i'r Pwyllgor

***Benderfynu: yn amodol ar yr uchod, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth o ran gallu'r Cyngor i gyflawni'r gyfres lawn o flaenoriaethau corfforaethol yn ystod cyfnod hir o gyfyngiadau***

***ariannol, i dderbyn a chydabod y cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn ystod Chwarter 2 2023/24.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi'i drefnu ar gyfer 25 Ionawr 2024, ac roedd dwy eitem ar y gweill ar gyfer rhaglen y cyfarfod hwnnw.

- I. Safonau Gwasanaeth Llyfrgell 2022/23 a
- II. Sicrhau Ymgysylltiad mewn Addysg.

Cafodd yr adroddiad ar y Strategaeth Datblygu Economaidd a Busnes a oedd fod i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr ei symud i gyfarfod mis Mawrth, gyda chaniatâd gan y Cadeirydd.

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cydlynnydd Craffu, os oedd unrhyw beth yn yr adroddiadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod presennol, yr oeddent o'r farn bod angen craffu ymhellach arnynt, y dylent lenwi'r ffurflen yn atodiad 2 ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ym mis Ionawr.

Yn un o gyfarfodydd diweddar y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, bu iddynt drafod cynnig i ystyried y prosesau/ gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am gyllid grant e.e. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin/ Cronfa Ffyniant Bro, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflwyno ac ymateb i geisiadau ar fyr rybudd os oedd angen. Roedd angen gwneud mwy o waith mewn perthynas â dirnad diben yr adroddiad a chanlyniadau archwilio'r mater, ond rhagwelwyd y byddai'n cael ei ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol, yn ystod gwanwyn 2024 yn ôl pob tebyg.

Roedd adroddiad gwybodaeth ynghylch Rheoli Stoc Tai'r Cyngor wedi'i restru ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2024. Roedd cyswllt agos rhwng y pwnc hwn ac eitem ar raglen y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 1 Chwefror, ac felly byddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

***Penderfynwyd: yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Hugh Irving, wrth y Pwyllgor nad oedd wedi gallu mynychu un o gyfarfodydd Bwrdd Prosiect Adeilad y Frenhines yn ddiweddar, gan ei fod ar ei wyliau. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yr wythnos nesaf, a bydd yn mynychu'r cyfarfod hwnnw.

Adroddodd yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Gareth Sandilands ar un o gyfarfodydd diweddar y Grŵp Craffu Cyfalaf y bu iddo ei fynychu. Yn y cyfarfod hwnnw, bu i'r Grŵp ystyried cynigion ariannol ar gyfer Prosiect Felodrom Rhuthun, estyniad i

adeilad yr ysgol, ceisiadau ariannol ar gyfer gwneud mân addasiadau, yn ogystal â sut y byddai cyllid cyfalaf yn cael ei wario yn y dyfodol. Bu i'r Pwyllgor

**Benderfynu: derbyn yr adroddiadau a dderbyniwyd ar lafar.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



|                                  |                                                               |
|----------------------------------|---------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                            |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>        | <b>25 Ionawr 2024</b>                                         |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b> | <b>Gill German (Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc)</b>      |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b>       | <b>Geraint Davies (Pennaeth Addysg)</b>                       |
| <b>Awdur yr adroddiad</b>        | <b>Wayne Wheatley Gwaith Cymdeithasol Addysg</b>              |
| <b>Teitl</b>                     | <b>Hyrwyddo Presenoldeb Ysgol ac Ymgysylltiad mewn Addysg</b> |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol o ran presenoldeb ysgol ac ymgysylltiad mewn addysg a'r ymateb i ymdrin â materion pan fo pryder ar lefel disgybl unigol yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Darparu gwybodaeth ac egluro'r mesurau i gefnogi disgyblion diamddiffyn i ail-ymgysylltu gyda'u haddysg a dyfnhau dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol wrth ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Gwahoddir y pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i adnabod unrhyw faterion a godwyd sydd angen eglurhad neu archwilio pellach yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cyd-destun

- 4.1 Roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion ym mlwyddyn ysgol 2018/19 cyn y pandemig ar gyfer ysgolion cynradd yn 94.8% ac ysgolion uwchradd yn 93.7%.

- 4.2 Mae ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer Medi 2022 i Fehefin 2023 yn dangos fod y gostyngiad mewn presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf ar draws awdurdodau Cymru yn sylweddol gyda chyfartaledd cyffredinol ar draws awdurdodau yn 88.9% rhwng y cynradd a'r uwchradd.
- 4.3 Mae [Jeremy Miles AS](#) hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i ddod â Chymru yn unol â Lloegr ble mae absenoldeb cyson yn cael ei ddiffinio fel colli 10% o sesiynau hanner diwrnod (30 sesiwn) yn hytrach na'r gyfradd absenoldeb gyfredol o 20% o absenoldeb cyson sy'n gyfwerth â 60 sesiwn hanner diwrnod y flwyddyn.
- 4.4 Mae Sir Ddinbych wedi cael cyllid ychwanegol gan LIC trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol i ymdrin a chefnogi addysg ac ysgolion. Rydym yn datblygu cysylltiadau cymunedol cydlynol mewn awdurdodau i ymdrin â'r duedd gyfredol hon a chanolbwyntio ar berthyn cymunedol a mynediad at wasanaethau sy'n sicrhau fod plant yn defnyddio eu hawl i addysg ond hefyd yn cael gwasanaethau sy'n ehangach na dim ond addysg yn unig.
- 4.5 Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan LIC yn nodi'r canolbwynt hwn o fewn ei deitl [Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi](#).
- 4.6 Mae'r termau cymuned a pherthyn yn ganolog i sefyllfa'r llywodraeth a'r ALI ar fynd i'r afael â'r lefelau isel o ail-ymgysylltu disgyblion yn ôl i addysg.
- 4.7 Mae'r "termau" uchod nawr yn gyrru'r canllawiau LIC a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ymdrin â phwysigrwydd hyrwyddo presenoldeb a'r gwahaniaeth y gall hyn ei wneud i ganlyniadau a chyfleoedd plant y tu hwnt i'w haddysg statudol.
- 4.8 Bydd y canllawiau hyn yn ffurfio rhan o'r gweithdrefnau presenoldeb presennol ar gyfer ysgolion yn Sir Ddinbych, gan adlewyrchu, ble fo angen, y themâu allweddol a'r disgwyliadau o ran camau gweithredu gan awdurdodau lleol.
- 4.9 Mae Adran Addysg Sir Ddinbych yn darparu Polisi Presenoldeb enghreifftiol i ysgolion sy'n sicrhau cydymffurfiaeth, rheolaeth effeithiol a chefnogaeth. Mae'r polisi yn **Atodiad 1** gyda chrynodeb o gyd-destun yn **Atodiad 2**.

## **Gweledigaeth a Chwmpas**

**Nid oes un ateb, un grŵp neu un gwasanaeth y gall ymdrin â'r mater hwn.**

- 4.10 Rhaid i'r ALI edrych ar sut rydym yn defnyddio'r diwygiadau diweddar yn y cwricwlwm cenedlaethol, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg 2018, a'r adnoddau a'r cysylltiadau o fewn yr awdurdod ond hefyd o fewn ei sector busnes a masnach i gynnig cysylltiadau ehangach a chysylltiedig i ehangu cyfleoedd i'n plant yn Sir Ddinbych.
- 4.11 Mae cwmpas yr uchod yn ymdrin â nifer o faterion mae plant yn delio â nhw yn ddyddiol, apathi, digalondid ac yn fwy pryderus, iechyd meddwl a lles sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers y pandemig. Mae gan y rhan fwyaf os nad bob atgyfeiriad gan ysgolion i'r Gwasanaeth Lles Addysg thema sy'n ailadrodd o'r materion uchod a'r cwestiwn i'w ateb yw sut y gallwn newid y dirwedd hon gyda'n gilydd a chynnig cyfle a gweledigaeth pendant.

### **Datganiad Sefyllfa**

- 4.12 Yn bresennol mae perfformiad cyffredinol Sir Ddinbych yn 90.1%, y cyfartaledd ar draws Cymru o Fedi i Dachwedd 2023 yw 91.3%. Mae dadansoddiad manylach o'n sefyllfa bresennol o ran Presenoldeb a chefnogaeth gyfredol ar gael yn **Atodiad 3**.

### **Arfer Da**

- 4.13 Mae dull ysgol gyfan yn gyffredin ar draws ysgolion Sir Ddinbych ble gall yr holl staff beth bynnag fo'u swyddogaeth wneud gwahaniaeth i blentyn mewn ysgol sy'n gosod y plentyn yn ganolog i'r holl waith sydd â diddordeb cyffredin o ddysgu, gofal a lles. Mae gan ysgolion dimau bugeiliol a staff cefnogi yn gweithio gyda disgyblion i wella canlyniadau dysgu ond hefyd deall gofal ein dysgwyr diamddiffyn sydd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, materion teuluol cymhleth, tlodi, anfantais a nifer cynyddol o broblemau iechyd meddwl, gorbryder ac ymddieithrio.
- 4.14 Mae cyfres o ganllawiau wedi eu creu i gefnogi ysgolion a theuluoedd i ddeall y disgwyliadau o ran presenoldeb da a hefyd i roi eglurder trwy gyfres o gwestiynau cyffredin. Mae enghreifftiau o'r rhain yn **Atodiadau 4, 5 a 6**.

## **Rhybuddion Cosb Benodedig**

Mae cod ymddygiad rhybudd cosb benodedig yn Sir Ddinbych yn galluogi'r awdurdod i gyhoeddi llythyrau rhybudd i riant yn seiliedig ar dystiolaeth presenoldeb ysgol disgybl. Mae hwn yn hysbysiad cynnar i'r rhiant ar ôl cyswllt rheolaidd gan yr ysgol fod presenoldeb gwael yn bryder parhaus. Gall rhieni gael dirwy pan nad oes ymateb i'r rhybuddion hyn o fewn cyfnod rhesymol.

Cymerir y mesurau hyn fel dewis olaf ac mewn achosion eithriadol yn unig pan fo'r holl ymdrechion i ymgysylltu â rhiant wedi methu gan yr ysgol, mae hyn yn unol â'r canllawiau cyfredol gan LIC a'r datganiad gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

Cymerir camau hefyd pan nad yw dirwyon yn cael eu talu ac yn yr amgylchiadau hyn (43 diwrnod) mae adroddiad a ysgrifennir gan y swyddog lles addysg yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cyfreithiol.

Mae'r mater yn mynd yn ôl i'r drosedd wreiddiol sef **“mae rhiant yn euog o drosedd os yw eu plentyn o oedran ysgol gorfodol, sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, yn methu â mynychu'n rheolaidd** - Adran 444 (1) Deddf Addysg 1996.

| Rhybuddion Cosb Benodedig | Blwyddyn Ysgol | Rhybudd a gyflwynwyd | Dirwyon a Gyflwynwyd |
|---------------------------|----------------|----------------------|----------------------|
|                           | 2021 /2022     | 42                   | 7                    |
|                           | 2022/2023      | 234                  | 22                   |
| Blwyddyn Ysgol Gyfredol   | 2023/2024      | 103                  | 5                    |

Gweler **Atodiad 7** i gael mwy o wybodaeth am gwestiynau cyffredin am y broses Rhybudd Cosb Benodedig.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle y gall pobl ifanc ffynnu a chael y cychwyn gorau mewn bywyd beth bynnag fo'r problemau neu heriau maent yn eu hwynebu.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Yn bresennol mae'r awdurdod lleol (ALI) yn cael eu cefnogi gan grantiau allanol i ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol ac yn lleol ynglŷn ag effaith presenoldeb gwael a'r cynnydd i adennill a rhagori ar y lefelau a gyrhaeddwyd yn 2018/19.

6.2 Pe byddai'r arian yn gostwng yn y setliad gan LIC yn 2024/25 byddai angen cynnal adolygiad i edrych ar gyfeiriad strategol y sir yn ymwneud â buddsoddiad yn y dyfodol i gefnogi'r maes blaenoriaeth uchel hwn. Mae gan Sir Ddinbych ddealltwriaeth glir mai blaenoriaeth gyfredol LIC gan y Gweinidog Addysg yw ymgysylltu â dysgwyr.

6.3 Bydd arolygiadau o'n hysgolion gan Estyn yn blaenoriaethu'r maes hwn o berfformiad yn seiliedig ar fuddsoddi grantiau a sut mae ysgolion yn ymdrin â'r maes gwaith hwn. Bydd perfformiad yr awdurdod i ddatblygu cyfle i bobl ifanc yn Sir Ddinbych yn cael ei graffu ar draws nifer o wasanaethau.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad na chynnig ar gyfer newid ac felly nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Bu i drafodaethau gyda phenaethiaid yn ddiweddar (Tachwedd 2023) drafod y sefyllfa bresennol ac amlygu canllawiau LIC diweddar "Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi". Roedd cydnabyddiaeth fod rhaid i ysgolion edrych ar sut maent yn gweithio gyda theuluoedd gan ganolbwyntio ar ddull ysgol gyfan sy'n cynllunio, cefnogi ac integreiddio gofal disgyblion i gynnal a gwella ymgysylltiad ag addysg.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Gweler Adran 6

## **10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Bydd y risgiau o beidio â chyflawni nod strategol LIC a'r ALI o bosib yn gweld nifer is o blant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd yn Sir Ddinbych gan effeithio ar eu canlyniadau a'u dyfodol.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1 Deddf Addysg 1996 - Adran 444

11.2 Caiff pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Os mabwysiadir gan yr ysgol, rhaid  
ychwanegu logo'r ysgol yma, yn ogystal â  
logo CSDd

## Atodiad 1

# Polisi Presenoldeb

\* At ddibenion y polisi hwn, mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, ynghyd ag unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

|                                                                         |    |
|-------------------------------------------------------------------------|----|
| Enw'r Ysgol<br>Name of school                                           | XX |
| Cyfeiriad a Chod Post<br>Address and post code                          | XX |
| Rhif ffôn<br>Phone number                                               | XX |
| Cyfeiriad e-bost ar gyfer y polisi hwn<br>Email address for this policy | XX |
| Dolen we i'r polisi<br>Web link to policy                               | XX |

|                                                                                                                         |                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|
| Enw'r polisi<br>Name of policy                                                                                          | Polisi Presenoldeb |
| Rhif y fersiwn o'r Polisi<br>Policy version number                                                                      | Medi 2022 V4       |
| Dyddiad cymeradwyo'r Polisi'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethol<br>Date Policy formally approved by Governing Body     | XX                 |
| Dyddiad y daw'r Polisi'n effeithiol<br>Date Policy becomes effective                                                    | XX                 |
| Dyddiad Adolygu<br>Review Date                                                                                          | XX                 |
| Arwyddwyd (Pennaeth)<br>Signed (headteacher)                                                                            | XX                 |
| Arwyddwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu)<br>Signed (chair of governing body)                                          | XX                 |
| Mae gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr<br>Information about this policy is available to parents/carers |                    |



|                                                                                                                          |                |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| Datblygwyd y Polisi gan<br>Policy developed by                                                                           | Wayne Wheatley |
| Dyddiad mabwysiadu gan JMT y<br>Gwasanaethau Addysg a Phlant<br>Date adopted by Education and<br>Children Services JMT   | Medi 2017      |
| Dyddiad rhannu'r Polisi gwreiddiol<br>ag ysgolion Sir Ddinbych<br>Original policy date issued to<br>Denbighshire schools | Medi 2015      |
| Rhif a dyddiad y Fersiwn<br>Version number and date                                                                      | V4 01/09/2022  |
| Datblygwyd y fersiwn gan<br>Version developed by                                                                         | W. Wheatley    |
| Dyddiad Adolygiad Blynyddol<br>Annual review date                                                                        | Awst 2023      |
| Dyddiad cwblhau'r asesiad Lles<br>Well-being assessment completed<br>and date                                            | Awst 2017      |

[V.4]

CYNGOR SIR DDINBYCH  
POLISI AC YMARFER

1. CYFLWYNIAD
2. BWRIAD
3. ABSENOLDEB WEDI'I AWDURODI/HEB EI AWDURDODI
4. CYFRIFOLDEBAU YSGOLION
  - 4.1 AILINTEGREIDDIO DISGYBLION AR ÔL ABSENOLDEB
  - 4.2 OFFERYN ARCHWILIO HUNANWERTHUSO YSGOL
5. CYFRIFOLDEBAU RHIENI
  - 5.1 FFRAMWAITH STATUDOL
6. CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD LLEOL
  - 6.1 CYFRIFOLDEBAU'R GWASANAETHAU ADDYSG (GWASANAETH LLES ADDYSG)
  - 6.2 ATGYFEIRIADAU I'R GWASANAETH LLES ADDYSG
  - 6.3 MONITRO A CHYMORTH GAN YR AWDURDOD LLEOL
  - 6.4 CYFRIFOLDEBAU'R GWASANAETHAU PLANT
  - 6.5 POLISI CEFNOGI PLANT SY'N DERBYN GOFAL (LAC)
  - 6.6 RHWYDWEITHIAU A PHARTNERIAETHAU AMLASIANTAETHOL
  - 6.7 Y GWASANAETH NYRSIO YSGOL AC ASIANTAETHAU IECHYD ERAILL
  - 6.8 CYSYLLTIADAU AG AWDURDODAU LLEOL ERAILL
7. RHYBUDD COSB BENODEDIG
8. GWYLIAU TEULUOL YN YSTOD Y TYMOR
9. GWYLIAU TRAMOR ESTYNEDIG
10. PLANT SY'N COLLI ADDYSG
11. DIOGELU

## 12. ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

Canllawiau a Dogfennau Deddfwriaethol Allweddol ar gyfer cyfeirio i ddilyn

Atodiad 1 GWEITHDREFN PRESENOLDEB SIR DDINBYCH – ARWEINIAD I YSGOLION

Atodiad 2 Arferion Da – Dadansoddi Data Presenoldeb

Atodiad 3 Cynllun Cefnogi Presenoldeb (Monitro Disgybl yn Unigol)

Atodiad 4 Hunanwerthuso Presenoldeb – TYMHOROL 201?- OFFERYN ARCHWILIO

Atodiad 5 POLISI PLANT SY’N DERBYN GOFAL (LAC) YSGOLION SIR DDINBYCH

Atodiad 6 Ffurflen Atgyfeirio i’r Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Atodiad 7 Canllaw Rhieni i Fonitro Presenoldeb yn Ysgolion Sir Ddinbych

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud datganiad clir o fwriad o ran presenoldeb ysgol gyda chyflwyno gweithdrefn presenoldeb i'w chadarnhau a'i gweithredu ar draws pob ysgol yn y Sir.

Bwriad y weithdrefn enghreifftiol hon yw cyflwyno datganiad trosfwaol o brotocolau ac arferion mewn perthynas â rheoli a hyrwyddo presenoldeb ysgol yn Sir Ddinbych.

Mae'r polisi yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar bresenoldeb ysgol a Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer presenoldeb ysgol diawdurdod.

Mae ysgolion yn gosod ystod o dargedau presenoldeb a thargedau absenoldeb ar gyfer disgyblion o oedran statudol (h.y. o ben blwydd plentyn yn bump oed yn y dosbarth Derbyn i ddydd Gwener olaf Mehefin, a lle bo'r plentyn yn un ar bymtheg erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno) ac yn ymgorffori'r rhain yn eu cynlluniau allweddol. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cymorth i ysgolion osod eu targedau eu hunain gan ddefnyddio ffigyrau o Set Ddata Graidd Cymru Gyfan ar Bresenoldeb.

Bydd partneriaethau gweithredol ac ystyrlon ag ysgolion, disgyblion ac asiantaethau eraill yn hanfodol i gyflawni'r targedau hyn yn llwyddiannus.

## 2. BWRIAD

Er mwyn gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb ysgolion, bydd yr Awdurdod Lleol yn dilyn pum strategaeth allweddol:

- Darparu cymorth a her i ysgolion, canolbwyntio adnoddau ar yr ysgolion hynny lle canfuwyd yr anghenion mwyaf.
- Datblygu ystod o ddangosyddion perfformiad ac wedyn gosod targedau realistig ond heriol gan ddefnyddio'r Set Ddata Graidd.
- Darpariaeth ar lefel ysgol i roi cymorth i ddisgyblion unigol sy'n profi anawsterau o ran mynychu ysgol yn rheolaidd, gan weithio gyda rhieni/gofalwyr i wella addysg y disgyblon a sicrhau ymroddiad.
- Darparu cymorth teg i rieni, cydbwysu cymorth gyda phwyslais ar sicrhau bod pob rhiant yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol o ran presenoldeb ysgol.

- Datblygiad parhaus arferion gweithio amlasiantaethol effeithiol ar lefel ysgol er mwyn hwyluso ymyrraeth gynnar a sicrhau cysondeb a gwelliant o ran lefelau cyflawniad disgyblion.

Wrth ddatblygu'r polisi ac arferion o ran hyrwyddo presenoldeb ysgol, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod y cyd-destun cenedlaethol a blaenoriaethau'r llywodraeth ganolog ac yn cydbwysu hyn â'r angen i ymateb i'r cyd-destun lleol a'r blaenoriaethau arbennig yn Sir Ddinbych.

Swyddog arweiniol yr Awdurdod Lleol â chyfrifoldeb dros ddatblygu polisi ac arferion o ran presenoldeb ysgol fydd Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Lles Addysg.

### **Fframwaith Arolygu Estyn**

*Mae dull gweithredu Estyn wrth arolygu Ysgolion ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion ar draws Cymru wedi newid i alinio gyda phersonoli Cwricwlwm i Gymru newydd.*

*Yn hytrach na chanolbwyntio ar raddio crynodol bydd Estyn yn nodi mewn adroddiadau arolygon pa mor dda mae darparwyr yn helpu disgyblion i ddysgu.*

### **3. ABSENOLDEB WEDI'I AWDURDODI / HEB EI AWDURDODI**

- Mae'n hanfodol pwysleisio bod dau fath o absenoldeb: un wedi ei awdurdodi ac un heb ei awdurdodi. Efallai y bydd angen atgoffa rhieni nad yw llythyr neu alwad ffôn yn ei hun yn awdurdodi absenoldeb, **dim ond derbyniad y Pennaeth o'r eglurhad a gynigiwyd trwy'r llythyr neu alwad ffôn sy'n awdurdodi'r absenoldeb. Rhaid hysbysu rhieni ynglŷn â'r penderfyniadau hyn er mwyn peidio â drysu pethau yn ddiweddarach neu os bydd materion yn cyrraedd proses gyfreithiol.** Bydd ysgolion y dilyn Gweithdrefnau Presenoldeb Sir Ddinbych er mwyn monitro, cefnogi ac ymdrin â materion presenoldeb. Mae'n allweddol fod ysgolion yn gweithredu Cynllun Cefnogi Presenoldeb gyda disgybl sy'n achosi pryder yn gynnar yn y broses fonitro i weithio gyda phawb sy'n briodol a chofnodi camau gweithredu'r ysgol i reoli'r pryder o ran presenoldeb. Bydd hyn yn rhan o'r dystiolaeth sydd ei hangen i atgyfeirio achos i Wasanaeth Lles Addysg yr awdurdod lleol.

**Dylai ysgolion ddatblygu perthynas weithio agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.**

Caiff absenoldebau o'r ysgol eu hawdurdodi os gall y rhiant/gofalwr brofi unrhyw rai o'r amddiffyniadau statudol a ganlyn:

- nad oedd y disgybl yn gallu mynychu oherwydd salwch neu reswm anochel arall; neu
- roedd y disgybl yn absennol ar ddiwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ymlyniad crefyddol gan y corff crefyddol y mae rhieni'r plentyn yn perthyn iddo; neu
- roedd yn absennol oherwydd nad yw'r ysgol y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi o fewn pellter cerdded ac nad yw'r Awdurdod Lleol wedi gwneud unrhyw drefniadau addas. \*Gweler y ddolen at Bolisi Cludiant ysgol Cyngor Sir Ddinbych am ragor o wybodaeth.

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/education-and-schools/school-transport-policy.pdf>

- Os yw'r plentyn yn absennol â chymeradwyaeth yr ysgol, am ba reswm bynnag, ystyrir nad oes unrhyw drosedd wedi'i chyflawni. Felly, mae penderfyniad yr ysgol i awdurdodi neu wrthod awdurdodi absenoldeb yn ffactor hollbwysig wrth i'r Awdurdod Lleol benderfynu a yw am erlyn.
- Mae angen eglurhad ar gyfer pob absenoldeb. Os na chynigir eglurhad caiff yr absenoldeb ei drin fel un heb ei awdurdodi.
- Absenoldeb heb ei awdurdodi yw absenoldeb sydd heb ei gymeradwyo gan Bennaeth yr ysgol. Mae absenoldeb rheolaidd, heb ei awdurdodi, yn drosedd yn ôl y gyfraith.
- Mae absenoldeb a ganiateir gan rieni yn aml yn anoddach i'w ganfod nag unrhyw fath arall o absenoldeb, ac mae yr un mor niweidiol i brofiadau addysgol disgybl ag unrhyw ffurf arall o absenoldeb. Os bydd gan staff yr ysgol reswm i amau dilysrwydd esboniad rhiant dros yr absenoldeb dylid ei drin fel absenoldeb heb ei awdurdodi a'i gyfleu wrth y rhiant neu'r gofalwr
- Gan fod pob absenoldeb i'w drin fel un heb ei awdurdodi onid yw'r ysgol yn cytuno ar eglurhad boddhaol, a hyd y bydd wedi gwneud hynny, mae'n bwysig fod gan ysgolion weithdrefnau a ddilynir yn gyson i fynd ar drywydd esboniadau ac i ddiwygio cofrestrï. Byddai gweithdrefnau o'r fath yn cynnwys cais am gyngor meddygol gan weithwyr meddygol proffesiynol.

#### **4. CYFRIFOLDEBAU RHIENI**

Ysgolion sy'n bennaf gyfrifol am gefnogi presenoldeb disgyblion ac am ymateb i anawsterau a materion a fydd efallai'n arwain at ddiffyg presenoldeb gan ddilyn Gweithdrefnau Presenoldeb Cyngor Sir Ddinbych (gweler Atodiad 1).

Dylai ysgolion fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol a rhagweithiol tuag at faterion o ran presenoldeb. Gall ysgolion sy'n annog rhieni i gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant chwarae rôl fawr o ran gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb a lleihau absenoldeb.

Rhaid i ysgolion gael prosesau a systemau sy'n cofnodi absenoldeb yn gywir sy'n gosod pwyslais ar fonitro disgyblion unigol sy'n achosi pryder yn wythnosol i alluogi'r ysgol i ostwng cyfraddau absenoldeb yn effeithiol.

Dylai Cyfarfodydd Tîm Rheoli wythnosol a'r rhai sy'n gyfrifol am fonitro absenoldeb o'r ysgol adnabod y disgyblion hynny sydd angen cynlluniau cefnogi presenoldeb gan weithio gyda'r rhiant, staff ysgol ac asiantaethau eraill i sicrhau patrwm o bresenoldeb ysgol rheolaidd i'r disgybl.

Bydd yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion:

- Gynnal cofrestr presenoldeb yn unol â Rheoliadau (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010\*. Mae'r gofrestr yn ddogfen gyfreithiol a rhaid ei chadw'n gywir. Efallai y gelwir am ddefnyddio cofrestr mewn achos llys fel tystiolaeth wrth erlyn diffyg presenoldeb, neu gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig.  
\* <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/1954/made>
- Cadw cofnod cywir ar gyfer pob sesiwn ysgol i ddangos p'un a oedd disgybl yn bresennol, yn absennol a ph'un a oedd hynny ag awdurdod neu heb awdurdod (yn ôl y meini prawf a nodir gan Ddeddf Addysg 1996)\*. Mae'n allweddol bod staff cofrestru yn defnyddio'r codau cofrestru priodol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.  
\*<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents>
- Rhaid i holl ysgolion Sir Ddinbych ddefnyddio codau cofrestru Llywodraeth Cymru. Gweler y ddolen isod am ragor o wybodaeth:  
<http://dera.ioe.ac.uk/565/1/100628attendancecodes4ien.pdf>
- Atgoffa rhieni mai penderfyniad y Pennaeth yw p'un a fydd absenoldeb yn cael ei awdurdodi ai peidio.
- Rhaid i ysgolion sicrhau bod cofrestru'n cael eu diweddarau'n ddyddiol i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddadansoddi gan y tîm data canolog a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gywir.
- Gosod targedau blynyddol i leihau absenoldeb a chyflwyno'r targedau hyn yn unol â'r rheoliadau statudol. Dylid cyflwyno targedau i:  
<http://gwe-sms.blahwebserver.com/Account/Login> (Nodwch Os Gwelwch yn Dda: dolen gyfyngedig yw hon nad yw ond yn hygyrch i Benaethiaid ag enw defnyddiwr a chyfrinair).
- Mae'n ofynnol trwy gyfraith i ysgolion gael polisi presenoldeb ac felly

argymhellir yn gryf iddynt fabwysiadu Gweithdrefn Presenoldeb Cyngor Sir Ddinbych (Gweler Atodiad 1). Dylid personoli'r canlynol ar gyfer pob ysgol:

- Cyfathrebu gwybodaeth glir i rieni'n rheolaidd trwy brosbectws yr ysgol, cylchlythyrau, nosweithiau rhieni a thrwy wefannau ysgol. Dylai rhieni dderbyn gwybodaeth gywir a manwl gan yr ysgol ynghylch presenoldeb ar lefel y plentyn a pherfformiad yr ysgol yn gyffredinol.
- Amseroedd agor a chau'r ysgol gyda phwyslais ar yr angen i blentyn gyrraedd yn brydlon.
- Rhaid i staff dynodedig yr ysgol fod yn ymwybodol o bwysigrwydd monitro data presenoldeb gan edrych ar gynnydd, tueddiadau a chodau cofrestru'n rheolaidd. Er mwyn i ysgol fod yn effeithiol, mae angen i staff dynodedig ddadansoddi data ar lefel disgyblion unigol yn wythnosol.
- Sicrhau bod staff gweinyddol yr ysgol yn deall gweithdrefnau presenoldeb SIMS a'u bod yn gallu rhoi cymorth i dîm rheoli'r ysgol drwy lunio adroddiadau ar bresenoldeb.
- Sicrhau cysylltiad ar y diwrnod cyntaf â rhieni/gofalwyr, yn enwedig o ran disgyblion y mae'r ysgol yn gwybod bod eu lefelau presenoldeb yn wael neu fel arall sydd efallai mewn perygl.
- Yn achos bod absenoldeb wedi'i awdurdodi, dylai'r ysgol barhau i fod yn wyladwrus am batrymau a all ddatblygu o ran diffyg presenoldeb.
- Rhaid i ysgolion gael llywodraethwr a enwyd sydd â chyfrifoldeb dros bresenoldeb sy'n derbyn adroddiad tymhorol ar berfformiad a gyflwynir gan y Pennaeth mewn cyfarfodydd llywodraethwyr.
- Rhaid i ysgolion fod wedi neilltuo uwch aelod allweddol o staff â chyfrifoldeb dros bresenoldeb, monitro a'r gweithgareddau uchod.

Atodir 'Arferion Da: Canllawiau i Ysgolion' yn atodiadau'r ddogfen hon. (Gweler Atodiad 2).

#### **4.1. AILINTEGREIDDIO DISGYBLION YN DILYN ABSENOLDEB**

Ar ôl unrhyw gyfnod o absenoldeb, dylai ysgolion ystyried a yw'r plentyn angen cefnogaeth i ailintegreiddio yn ô i'r ysgol. Gallai Cynllun Cefnogi Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn/Presenoldeb gynorthwyo i ailintegreiddio a monitro'r disgybl yn yr ysgol o ran cynnydd neu ddirywiad (gweler Atodiad



3), dylid ei ddefnyddio a'i adolygu yn rheolaidd gan ysgolion i gynorthwyo'r broses hon ac mae angen rheoli bob achos ar sail unigol.

- Dylid penodi gweithiwr allweddol a enwyd y mae'r disgybl yn gyfforddus ag ef neu hi i gefnogi'r disgybl.
- Trafod Cynllun Cefnogi Presenoldeb wedi'i gefnogi a'i gytuno â'r plentyn, rhiant a'r ysgol.
- Rhaid i'r gefnogaeth a nodir o fewn y Cynllun Cefnogi Presenoldeb fod ar waith yn barod i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol.
- Rhaid i'r disgybl deimlo ei fod yn cael ei groesawu a'i gefnogi ar ei ddiwrnod cyntaf.
- Mae angen i'r gweithiwr allweddol a nodwyd gynnal ôl-drafodaeth â'r plentyn ar ddiwedd pob diwrnod trwy gydol y cyfnod ailintegreiddio i ddileu unrhyw broblemau sy'n gallu cyfrannu at wneud i'r plentyn beidio â dychwelyd.

#### **4.2. OFFERYN ARCHWILIO HUNANWERTHUSO YSGOL**

Bydd pob ysgol yn ymgymryd â'r Offeryn Archwilio Hunanwerthuso (gweler Atodiad 4) yn flynyddol. Nodweddion allweddol o'r archwiliadau hyn yw cofnodi camau allweddol a meysydd i'w gwella.

- Dadansoddi data presenoldeb
- Archwilio gweithdrefnau presennol
- Arolygu dogfennau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb
- Asesu cyfathrebu â rhieni
- Ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo presenoldeb
- Gwerthuso'r ymateb i ymholiadau'r Awdurdod Lleol
- Canfod anghenion hyfforddi yn yr ysgol

Bydd yr archwiliad yn ffurfio rhan o'r gwaith â'r Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd o fewn y Cynllun Gwella Ysgol. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cefnogi ysgolion yn y broses hon.

(Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael yn electronig trwy Fewnrwyd CSDd - at ddefnydd addysg yn unig.)

#### **5. CYFRIFOLDEBAU RHIENI**

At ddibenion Deddf Addysg 1996, mae 'Rhiant' yn golygu y rhieni naturiol/gofalwyr pa un a ydynt yn briod ai peidio; mae'n cynnwys unrhyw unigolyn sy'n rhoi gofal dydd i ddydd i blentyn neu unigolyn ifanc, er nad yw'n rhiant naturiol.

Mae bod â gofal am blentyn neu unigolyn ifanc yn golygu fod yr unigolyn y

mae'r plentyn yn byw gydag o ac sy'n gofalu am y plentyn, waeth beth yw ei berthynas â'r plentyn, yn cael ei ystyried yn rhiant mewn cyfraith addysg

Gall rhieni wneud llawer i gefnogi presenoldeb rheolaidd a phrydlon eu plentyn. Dylai rhieni:

- Sicrhau bod arferion da ar waith yn y cartref i baratoi eu plentyn am y diwrnod ysgol dilynol (er enghraifft, bod ei fag ysgol wedi'i bacio, y wisg ysgol yn barod, trefn amser gwely sy'n briodol i oed y plentyn, cychwyn buan da yn y bore sy'n cynnwys brecwast).
- Sicrhau bod eu plentyn cyn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore.
- Hysbysu'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eu plentyn a diweddarau'r ysgol yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod o absenoldeb.
- Sicrhau bod yr eglurhad a roddir am absenoldebau'n adlewyrchiad gwir o'r amgylchiadau fel y gall ysgolion gynnig cymorth i wella presenoldeb.
- Disgwyl i'r ysgol gysylltu ynghylch unrhyw achos o absenoldeb eu plentyn heb eglurhad.
- Disgwyl cymorth gan yr ysgol a bod yn agored i'w dderbyn er mwyn gwella presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol.
- Bod yn ymwybodol y gellir gweithredu yn ôl y gyfraith i fynd i'r afael ag absenoldeb o'r ysgol sydd heb ei awdurdodi, gan gynnwys hysbysiad Rhybudd Cosb Benodedig ar ôl 5 diwrnod o absenoldeb heb ei awdurdodi, a ddilynir gan Rybudd Cosb Benodedig ar gyfer 10 diwrnod neu ragor o absenoldeb heb ei awdurdodi, Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg (Gorchymyn Llys ar y plentyn) neu erlyn rhieni.
- Ni wnaiff ysgolion gymeradwyo gwyliau yn ystod y tymor. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y Pennaeth mewn sefyllfa i ystyried y rhesymau dros ofyn am ganiatâd ar gyfer gwyliau yn dilyn y rheol amgylchiadau eithriadol\*. (Cyfarwyddeb Llywodraeth Cymru).
- Bydd y Pennaeth yn tynnu'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol os bydd rhiant yn gwneud cais am absenoldeb estynedig (h.y. yn hirach na phedair wythnos ar ôl ei gilydd, gan gynnwys amgylchiadau eithriadol). Ar ôl dychwelyd i Sir Ddinbych, byddai angen i'r rhiant ailymgeisio i'r Awdurdod Lleol am le yn yr ysgol.

**Nodwch os gwelwch yn dda:** Cynigir lleoedd ysgol yn seiliedig ar y niferoedd yn yr ysgol ar adeg ymgeisio. Efallai na fydd rhieni'n llwyddo i ddiogelu lle ysgol yn yr un ysgol a honno yr oedd eu plentyn wedi'i chofrestru ynddi cyn yr absenoldeb estynedig.

Mae ceisiadau ar gyfer lleoedd ysgolion trwy dderbyniadau ysgol gan ddefnyddio tudalen addysg gwefan Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Ddinbych i lenwi cais gan rieni.

## 5.1. FFRAMWAITH STATUDOL

Mae Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996\* yn nodi y bydd:

“Rhaid i riant pob plentyn oed ysgol gorfodol sicrhau ei (f)bod yn cael addysg amser llawn, effeithlon sy'n addas ar gyfer oed, tueddfryd a gallu'r plentyn ac yn cael cymorth ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd/fydd ganddi/ganddo, a hynny drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu mewn modd cymwys arall.”

“mae angen i ddisgybl fynychu'n rheolaidd yr ysgol y mae wedi'i gofrestru fel disgybl ynddi.”

Mae Adran 444 yn nodi hefyd:

“Os bydd plentyn oed ysgol gorfodol, sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol, yn methu mynychu'n rheolaidd, bydd ei rieni'n euog o gyflawni trosedd.”

\* <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/444>

## **6. CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD LLEOL**

O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano'n derbyn addysg addas, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen.

Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (cyn belled ag y bo'n bosibl) plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn derbyn 'addysg addas'.

Dylai'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd o dan adran 436A gael ei integreiddio gyda'r amrywiaeth ehangach o ddyletswyddau sydd gan Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Deddf Plant 2004 a 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd' sy'n ceisio darparu canlyniadau, a diogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i alluogi disgyblion a rhieni sy'n cael anhawster i gynnal presenoldeb rheolaidd neu brydlon yn yr ysgol, ac i orfodi presenoldeb, ble bo'n briodol, trwy gamau cyfreithiol. Yn Sir Ddinbych, cyflawnir y gwaith hwn gan y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gyda gwasanaethau eraill sy'n cynnig cyfraniad sylweddol i'r broses yn rheolaidd.

\* <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/437>

\* <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/4>

\* <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents>

### **6.1.CYFRIFOLDEBAU'R GWASANAETHAU ADDYSG (Y**

## **GWASANAETH LLES ADDYSG)**

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Lleol sydd â dyletswydd i ddarparu addysg briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn y Sir. Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg y cyfrifoldeb strategol dros ysgrifennu a gweithredu polisiau, gweithdrefnau gweithredol a chodau ymddygiad mewn perthynas â phresenoldeb ysgol.

Yn ogystal â gwella presenoldeb ysgol yn gyffredinol dengys ymchwil fod plant nad ydynt yn yr ysgol yn fwy bregus ac yn gallu cael eu tynnu i mewn i droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hawdd ac yn agored i gamfanteisio. Mae Swyddog Lles Addysg yn gwneud gwaith achos unigol fel rhan o Weithdrefn Bresenoldeb Sir Ddinbych. (Gweler Atodiad 1).

Lleolir y Swyddogion Lles Addysg yn ganolog, byddant yn ymateb i anghenion ysgolion a theuluoedd yn ôl yr angen. Gall ysgolion a theuluoedd gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg trwy rif y llinell gymorth - 01824 708064.

### **6.2. ATGYFEIRIADAU I'R GWASANAETH LLES ADDYSG**

Rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth eu bod wedi dilyn Gweithdrefnau Presenoldeb Sir Ddinbych (gweler Atodiad 1) cyn atgyfeirio. Gwneir atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Lles Addysg gan ddefnyddio'r ffurflen Atgyfeiriad Cynhwysiant\* trwy e-bost at [\\*inclusion.referrals@denbighshire.gov.uk](mailto:inclusion.referrals@denbighshire.gov.uk). Anfonir cydnabyddiaeth o'i derbyn i ysgolion yn awtomatig.

Ar ôl cael yr atgyfeiriad, bydd yr ysgol yn cael taflen olrhain yn egluro pwy yw'r Swyddog Lles Addysg dynodedig i ddechrau'r gwaith hwn gyda'r disgybl. Yna bydd y gwaith yn dechrau ar waith achos unigol ar y cyd â'r disgybl, rhieni, ysgolion ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cynorthwyo i ddileu rhwystrau sydd efallai'n atal plentyn rhag derbyn addysg lawn amser trwy ddefnyddio amrywiaeth o arferion a strategaethau yn eu gwaith achos ac ni fyddant ond yn defnyddio ymyrraeth gyfreithiol lle bo angen.

### **6.3. MONITRO A CHYMORTH GAN YR AWDURDOD LLEOL**

Bydd Swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn monitro presenoldeb trwy archwilio data ar bob ysgol, sy'n cael ei ddal yn ganolog. Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg yw dadansoddi a dosbarthu data ar bresenoldeb.

Mae dadansoddiad parhaus o ddata ysgol yn llywio gwaith cynllunio gweithredol dydd i ddydd a chyfeiriad strategol hirdymor y Gwasanaeth Lles Addysg.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu data lleol a chenedlaethol i

alluogi ysgolion i weithredu arno gyda'r nod o wella canlyniadau addysgol a chynhwysiant cymdeithasol.

Gall dadansoddiad trylwyr o ddata presenoldeb helpu i amlygu dangosyddion cynnar ymddieithriad, sydd yn y diwedd yn gallu arwain at absenoldeb parhaus.

#### **6.4. CYFRIFOLDEBAU'R GWASANAETHAU PLANT**

Bydd staff y Gwasanaethau Plant yn cynnal asesiadau o 'Blant Mewn Angen' mewn cydweithrediad â gweithwyr perthnasol eraill. Bydd yr asesiad yn edrych ar holl agweddau anghenion datblygol y plentyn, gan gynnwys ei anghenion addysgol. Gall Swyddogion Lles Addysg ddod â phlant i sylw'r Gwasanaethau Plant sydd wedi'u hatgyfeirio atynt o ganlyniad i anawsterau presenoldeb, sydd, yn eu barn broffesiynol hwy, angen cymorth ychwanegol yn unol â meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer 'Plant Mewn Angen'.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion yn gweithio'n agos â'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a gwasanaethau cyffelyb a byddant yn ystyried atgyfeiriadau os oes materion ar wahân i addysg sy'n atal presenoldeb llawn yn yr ysgol.

#### **6.5. POLISI O RAN RHOI CYMORTH I BLANT SY'N DERBYN GOFAL (LAC)**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymrwymedig i ddiogelu'r canlyniadau addysgol gorau i 'Blant sy'n Derbyng Gofal' (LAC). Mae'n credu bod presenoldeb rheolaidd, prydlon, di-dor yn yr ysgol yn hanfodol i helpu i sicrhau bod Plant sy'n Derbyng Gofal yn gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. (Gweler Atodiad 5 o ran y Polisi ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal) -

Mae Adran 20 Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn nodi bod rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddynodi aelod o staff fel yr un â chyfrifoldeb ar gyfer hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Mae'r ddyletswydd yn gymwys ni waeth a oes plant sy'n derbyn gofal ar gofrestr yr ysgol ai peidio, gan fod angen i ysgolion fod wedi paratoi yn ddigonol i ymateb yn gyflym i anghenion y plant hyn.

**Gwneud Gwahaniaeth – 255/2017 Canllawiau Llywodraeth Cymru -**

**Canllawiau ar gyfer person dynodedig Plant sy'n Derbyng Gofal mewn Ysgolion**



Making a  
Difference.pdf

#### **6.6. RHWYDWEITHIAU A PHARTNERIAETHAU AMLASIANTAETHOL**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y rhesymau dros ddiffyg presenoldeb parhaus yn yr ysgol yn golygu nad oes disgwyl i un gwasanaeth neu asiantaeth unigol lwyddo i fynd i'r afael â'r mater. Felly, trwy ddatblygu gwaith o fewn eu hardal neu ardaloedd lleol, mae'r Awdurdod Lleol yn ymdrechu i ddatblygu dull gweithio rhyngddisgyblaethol, amlasiantaethol, ar draws gwasanaethau. Nodweddir hyn gan gyflenwi ymateb di-dor, cydgysylltiedig ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

## **6.7. Y GWASANAETH NYRSIO YSGOL AC ASIANTAETHAU IECHYD ERAILL**

Ceir mynediad i'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgol trwy system atgyfeirio. (Gweler Atodiad 6).

Cynigir y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol i bob rhiant/gofalwr, ond gall rhieni wrthod y gwasanaeth.

Wrth gael mynediad i'r ysgol ac ar yr adeg y bydd plentyn yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd, bydd y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol yn anfon holiadur iechyd i rieni/gofalwyr. Mae'n ddefnyddiol iawn os gall yr ysgol eu hannog i ddychwelyd y wybodaeth hon er mwyn i'r nyrs ysgol gysylltu â theuluoedd ar y cyfle cyntaf. Defnyddir holiadur iechyd y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol, ynghyd â'r wybodaeth a drosglwyddir gan yr Ymwelydd Iechyd i ganfod unrhyw faterion iechyd sy'n debygol o effeithio ar bresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

Lle canfyddir unrhyw faterion sydd angen sylw, gwneir atgyfeiriad at gydweithwyr ym maes iechyd neu asiantaethau eraill. Fel yn achos staff ysgol, mae'n ofynnol i nyrsys ysgol weithio mewn modd cyfrinachol, felly anogir rhieni i rannu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol â'r ysgol.

Gyda chydsyniad rhieni, gall fod gan nyrsys rôl i'w chwarae o ran rhoi cyngor i'r staff ynghylch rhoi cymorth i rieni a phlant a phobl ifanc gyda'u:

- Iechyd a Llesiant
- Ymarfer Corff
- Bwyta'n Iach
- Iechyd Rhywiol
- Imiwneiddio
- Ymddygiad (e.e. cysgu, ymataliaeth, bwlio)
- Cyflyrau hirdymor ar yr ysgyfaint

Nid yw nyrsys ysgol yn gallu cael mynediad i gofnodion Meddygon Teulu heb gydsyniad rhieni. Cynghorir ysgolion felly i ofyn i rieni arwyddo ffurflen gydsyniad y gall yr ysgol neu'r rhiant ei hanfon ymlaen at y Meddyg Teulu ar gyfer rhyddhau gwybodaeth iechyd sy'n cael ei dal gan y feddygfa er mwyn rhoi cymorth i'r teulu a'r disgybl gyda materion o ran presenoldeb yn yr ysgol.

## 6.8. CYSYLLTIADAU AG AWDURDODAU LLEOL ERAILL

Mae gan Sir Ddinbych gysylltiadau cryf â'r Gwasanaeth Lles Addysg/Gwasanaethau Lles ar draws Gogledd Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i rannu arferion da a chydlynu camau sy'n effeithio pob Awdurdod, ynghyd â threfniadau trawsweithio yng nghyswllt ymyraethau cyfreithiol a chodau ymddygiad.

## 7. RHYBUDD COSB BENODEDIG

Gall yr Awdurdod Lleol gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig ar gais yr ysgol mewn perthynas ag absenoldebau o'r ysgol sydd heb eu hawdurdodi.

Cyfeiriwch at y dogfennau a ganlyn os gwelwch yn dda:

- Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych o ran Rhybuddion Cosb Benodedig ym maes Addysg. (Gweler Atodiad 7)
- Gweithdrefnau Presenoldeb Sir Ddinbych. (Gweler Atodiad 1)

Gall yr ysgol wneud cais am Rybudd Cosb Benodedig lle cofnodwyd absenoldebau heb eu hawdurdodi ar gyfer 10 neu ragor o ddiwrnodau ysgol plentyn (Nodwch os gwelwch yn dda bod pob diwrnod ysgol yn cynnwys 2 sesiwn, bore/prynhawn ac felly 10 diwrnod = 20 sesiwn).

Gall ysgolion wneud cais am gyflwyno llythyr i rybuddio rhieni/gofalwyr erbyn pwynt canol yr Awdurdod Lleol (5 diwrnod), fodd bynnag, efallai na fydd angen hyn ym mhob achos.

Mae Rhybudd Cosb Benodedig yn berthnasol i blentyn neu unigolyn ifanc o oedran ysgol statudol, h.y. o bumed pen blwydd plentyn yn y dosbarth Derbyn i'r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, a lle bo'r plentyn yn un ar bymtheg, erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno.

Ni fydd Awdurdod Lleol ond yn cyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig ar gais ysgol mewn perthynas ag absenoldeb heb ei awdurdodi, ar ôl i'r ysgol ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gadarnhau ei chais.

Os yw'r absenoldeb heb ei awdurdodi a'i fod wedi'i gofnodi ar y gofrestr â chyfuniad o unrhyw rai o'r codau a ganlyn ar gyfer absenoldebau heb eu hawdurdodi, bydd yn arwain at gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig:

- "U" – Hwyr a chyrraedd 30 munud ar ôl dechrau'r diwrnod ysgol neu gofrestr y prynhawn = 1 sesiwn bore/prynhawn o absenoldeb heb ei awdurdodi.
- "O" – Lle bo'r Pennaeth yn gwneud y penderfyniad bod y rheswm a ddarperir yn rheswm annerbyniol i beidio â mynychu'r ysgol.
- "G" – Absenoldeb gwyliau na chafodd ei gytuno gan y Pennaeth.

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/attendance.aspx>

## 8. GWYLIAU TEULUOL YN YSTOD Y TYMOR

## **Mae canllawiau'r Llywodraeth yn datgan:**

Yn ystod y tymor, nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau ac awdurdodir hyn yn ôl disgrisiwn y Pennaeth.

Dylai pob cais am wyliau fod mewn ysgrifen, yn ddelfrydol, pedair wythnos cyn y gwyliau. Dim ond y rhiant/gofalwr â gofal dydd i ddydd o'r plentyn all wneud y cais, hyd yn oed os nad yw'n mynd ar y gwyliau ei hun.

Rhaid cael cysondeb ymhlith ysgolion o ran y mater hwn. Safbwynt Cyngor Sir Ddinbych yw na ddylid cymeradwyo unrhyw wyliau yn ystod y tymor onid oes amgylchiadau eithriadol. Os bydd rhiant/gofalwr yn gwneud cais am wyliau yn ystod y tymor sy'n golygu y bydd plentyn yn absennol o'r ysgol am 10 diwrnod ysgol, byddai hyn yn arwain at gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig. Am ragor o wybodaeth, gweler yr adran mewn perthynas â gwyliau teuluol a gwyliau estynedig trwy'r linc isod\*.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework>

## **9. TEITHIAU TRAMOR ESTYNEDIG**

Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag absenoldeb estynedig disgyblion o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig, dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â sefyllfa teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol ac amgylchiadau arbennig pob achos. Mae'n bwysig bod ysgolion yn dangos eu bod yn deall safbwynt y rhieni, hyd yn oed os na fydd yn gallu derbyn cais am absenoldeb.

Dylai ysgolion sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar absenoldeb. Yn achos rhieni lleiafrifoedd ethnig, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu hesbonio'n llawn a bod y rhieni'n eu deall.

Rhan allweddol o hyn yw ysgolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'u holl rieni a gofalwyr, gan gynnwys y rheiny nad yw eu hiaith gyfathrebu ddewisol yn Saesneg neu Gymraeg. Dylai ysgolion gysylltu â'r Gwasanaeth EAL (07500 123964/ 01824 708064/ [roz.mannix@denbighshire.gov.uk](mailto:roz.mannix@denbighshire.gov.uk)) am arweiniad ar arferion da o ran defnyddio cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithiadau.

Darparwr presennol Cyngor Sir Ddinbych o ran gwasanaethau cyfieithu/cyfieithu ar y pryd yw 'The Big Word'. Gall y Gwasanaeth EAL roi cyngor ynghylch defnyddio'r gwasanaethau hyn ac opsiynau eraill.

Am ragor o wybodaeth ynghylch gwyliau tramor estynedig, cyfeiriwch at



y ddolen isod:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework>

## 10. PLANT SY’N COLLI ADDYSG

Mae gan bob asiantaeth rôl glir i’w chwarae o ran helpu i olrhain plant sy’n colli addysg o ysgolion yn Sir Ddinbych neu sy’n colli addysg o ysgolion mewn awdurdodau eraill, ac sydd efallai wedi symud i’r Sir.

Gall rhieni/gofalwyr gynorthwyo i sicrhau bod darpariaeth addysg eu plant yn trosglwyddo’n llyfn rhwng Sir Ddinbych ac Awdurdodau Lleol eraill, lle bo angen symud am ba reswm bynnag, trwy hysbysu’r ysgol y cofrestrwyd y plentyn ynddi.

Disgwylir i ysgolion ddilyn gweithdrefnau cyfatebol o ran y disgyblion hynny sy’n cael eu tynnu o’r ysgol gan eu rhieni heb ddarparu a chadarnhau eu cyrchfan enwebedig o ran ysgol. (Gweler Atodiad 8)

## 11. DIOGELU

Mae’r Swyddog Diogelu yn y Gwasanaethau Addysg yn darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant ynghylch unrhyw faterion o ran diogelu. Mae diogelu yn ystyriaeth yn achos pob pryder ynghylch presenoldeb. Rhan o rolau a chyfrifoldebau’r Gwasanaeth Lles Addysg yw darparu cynrychiolaeth yn y fforymau amlasiantaethol a ganlyn sy’n canfod a chynllunio cymorth i’r teuluoedd a’r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn Sir Ddinbych.

- Y Panel Amlasiantaethol (MAP) – dan arweiniad Addysg
- Y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) – dan arweiniad yr Heddlu
- Y Panel Asesu Risg ar y Cyd (JRAP) – dan arweiniad y Gwasanaethau Plant
- Y Panel Rhwystro ac Atal (PAD) – dan arweiniad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Bolisi Diogelu Cyngor Sir Ddinbych drwy’r ddolen isod:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/health-and-social-care/safeguarding.aspx>

## 12. ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

Rhieni neu ofalwyr sy’n bennaf gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg addas a bydd rhai’n dewis arfer y ddyletswydd hon drwy ddewis addysgu yn y cartref.

Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn derbyn y cais i addysgu yn y cartref mewn ysgrifed gan y rhieni neu'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant. Ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn, rhaid anfon copi gan yr ysgol at yr Awdurdod Lleol o fewn 10 diwrnod gwaith. Os oes gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, ni ellir eu tynnu o gofrestr yr ysgol heb gydsyniad Swyddog Datganiadau'r Awdurdod Lleol.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at arweiniad Cyngor Sir Ddinbych ynghylch addysgu eich plentyn yn y cartref trwy'r ddolen isod:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/educating-your-child-at-home.aspx>

## **DOGFENNAU A CHYFEIRIADAU ALLWEDDOL**

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Mawrth 2016

Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2006

Arweiniad ar Godau Presenoldeb yn yr Ysgol, Mehefin 2010

Canllawiau Statudol i helpu atal plant a phobl ifanc rhag Colli Addysg Cylchlythyr LIC Mawrth 2017

### **Dogfennaeth Ategol Ychwanegol**

Gellir cael mynediad i ddogfennau ar Wefan Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru

Canllawiau Cefnogi Cynhwysiad a Disgyblion Llywodraeth Cymru Mawrth 2016

<http://gov.wales/dcells/publications/publications/circularsindex/2006/inclusionandpupilsupport/inclusionpupilsupport-e.pdf?lang=en>

Canllawiau Statudol i Helpu Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg, LIC Mawrth 2017

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/101419missingeducationen.pdf>

Addysg Ddewisol yn y Cartref, Llywodraeth Cymru

<http://edyourself.org/articles/EnglandandWales.php>

Canllawiau Anstatudol yng Nghymru ar Gyfer Awdurdodau Lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (Mai 2015) Llywodraeth Cymru

<http://gov.wales/consultations/education/elective-home->

[education/?lang=en](#)

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Llywodraeth Cymru 2022

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf>

Atodiad 1

**GWEITHDREFN PRESENOLDEB SIR DDINBYCH – ARWEINIAD I YSGOLION**

Tudalen 44

| COD       | GWEITHREDU – Absenoldebau Wedi'u Hawdurdodi                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | COD        | GWEITHREDU – Absenoldebau Heb eu Hawdurdodi                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-----------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>A1</b> | <p>Cysylltiad ar Ddiwrnod Cyntaf yr Absenoldeb</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau codau fel y derbynnir rhesymau.</li> </ul> <p>Rhaid defnyddio Codau SIMS Swyddogol – Tra bydd rhieni'n darparu rhesymau, penderfyniad yr ysgol yw p'un ai i awdurdodi absenoldeb. Dylid cofio na fydd y gwasanaeth ESW yn gallu derbyn atgyfeiriadau yn achos bod ysgol wedi awdurdodi'r absenoldebau. Ni ellir ystyried camau cyfreithiol os awdurdodwyd yr absenoldebau o dan godau C, I a M neu lle mae codau N yn dal i fodoli.</p> | <b>AA1</b> | <p>Cysylltiad ar Ddiwrnod Cyntaf yr Absenoldeb</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau codau fel y derbynnir rhesymau.</li> <li>• Yn dilyn 10 diwrnod+ o absenoldeb wedi'i hawdurdodi yn ôl disgrisiwn yr ysgol, (ceisiwch arweiniad gan y ddesg gymorth os oes angen), ar gyfer salwch/ rheswm meddygol, gwahodd rhieni i gyfarfod AA1 (gweler enghraifft o lythyr AA1).<br/>Monitro ac adolygu.</li> </ul> <p>Rhaid defnyddio Codau SIMS Swyddogol – Tra bydd rhieni'n darparu rhesymau, penderfyniad yr ysgol yw p'un ai i awdurdodi absenoldeb. Cofiwch os gwelwch yn dda na ellir cymryd camau cyfreithiol os awdurdodwyd yr absenoldebau o dan godau C, I a M neu lle mae codau N yn dal i fodoli.</p> |
| <b>A2</b> | <p>Galwad/neges destun dilynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwirio y cafwyd rhesymau dros yr absenoldebau, nodwch y rheswm ar SIMS</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | <b>AA2</b> | <p>Dirywiad – anfon llythyr AA2 (gweler enghraifft o lythyr AA2 letter)</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

- Diweddarau codau fel y derbynnir rhesymau.
- Os na cheir ymateb, symud i'r cam nesaf.

- Cyfarfod AA2 â'r rhieni a'r disgybl, nyrs yr ysgol ac unrhyw weithiwr meddygol proffesiynol arall fel y bo'n briodol.\*\*
- Cymryd cofnodion o'r cyfarfod a chwblhau Cynllun Cefnogi Presenoldeb (CCP) a/neu Gynllun Gofal Iechyd, rhoi copi i'r rhiant.
- Os oes rhesymau iechyd dilys a bod effaith ar bresenoldeb/dysgu, ystyried darparu gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- **Os bydd y camau uchod yn penderfynu nad oes unrhyw resymau iechyd dilys, dylid cofnodi absenoldebau pellach gydag 'O' oni chyflenwir tystiolaeth feddygol o ddyddiad llythyr AA2. Os bydd rhesymau meddygol/salwch yn dal i gael eu darparu heb dystiolaeth, anfonwch lythyr (Gweler y llythyr AA2+ enghreifftiol)**

|           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|-----------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd llythyrau A3 yn cael eu hanfon mwyach i'r disgyblion hyn gan na fydd absenoldebau ond yn cael eu hawdurdodi yn dilyn derbyn tystiolaeth feddygol. Monitro ac adolygu.</li> <li>• Os nad oes unrhyw welliant, uwchgyfeirio i A4 (y llwybr Heb ei Awdurdodi).</li> </ul> |
| <b>A3</b> | <p>Anfon llythyr gartref trwy'r post (Gweler yr enghraifft o lythyr A3)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Codio'r ymateb fel y bo'n briodol</li> <li>• Os nad oes unrhyw ymateb yn dilyn 3 llythyr, ystyried symud i'r cam nesaf os yw'r absenoldebau yn parhau heb eglurhad.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                         |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>A4</b> | <p>Personél â chyfrifoldeb dros bresenoldeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trothwy o 5 absenoldeb heb ei awdurdodi - trefnu cyfarfod â'r rhieni a'r disgybl trwy lythyr. (Gweler yr enghraifft o lythyr A4)</li> <li>• Cymryd cofnodion o'r cyfarfod a chwblhau Cynllun Cefnogi Presenoldeb (ASP) a/neu Gynllun Gofal Iechyd, rhoi copi i'r rhiant a threfnu dyddiad i adolygu ar ôl pythefnos. *</li> <li>• Monitro ac adolygu a symud i'r cam nesaf os nad oes unrhyw welliant.</li> </ul> |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |

|            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |  |  |
|------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| <b>A4+</b> | <p>Uwch Bersonél Arweinyddol â chyfrifoldeb dros bresenoldeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnu cyfarfod â'r rhieni a'r disgybl. (Gweler yr enghraifft o lythyr A4+)</li> <li>• Cymryd cofnodion o'r cyfarfod a chwblhau/ailymweld â'r Cynllun Cefnogi Presenoldeb (ASP), rhoi copi i'r rhiant a threfnu dyddiad i adolygu ar ôl pythefnos. *</li> <li>• Monitro ac adolygu. Os nad oes unrhyw welliant, ystyried cyflwyno rhybudd cosb benodedig neu symud i'r cam nesaf.</li> <li>• Anfon llythyr i hysbysu'r rhieni o atgyfeiriad at y gwasanaeth ESW (Gweler yr enghraifft o lythyr A5)</li> </ul> |  |  |
| <b>A5</b>  | <p>Cwblhau'r Ffurflen Atgyfeirio Cynhwysiant gan gynnwys y dystiolaeth a ganlyn y mae'n rhaid iddi fod wedi'i hel o fewn yr un flwyddyn academiaidd ac sy'n dangos naill ai dim gwelliant neu ddirywiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad tystysgrif cofrestru SIMS</li> <li>• Copïau o lythyrau gan yr ysgol i'r rhieni</li> <li>• Cofnodion cyfarfodydd yr ysgol (pob lefel)</li> </ul>                                                                                                                                                                                                          |  |  |

|            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |  |  |
|------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
|            | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodion cyfarfodydd adolygu (pob lefel)</li> <li>• Unrhyw gofnodion ychwanegol o gysylltiad â rhieni</li> <li>• Cynllun Cefnogi Presenoldeb</li> <li>• Bydd rhaid i absenoldebau meddygol/salwch (AA1, AA2) fod wedi dilyn y llwybr absenoldebau heb eu hawdurdodi cyn ymrwmo'r ESW.</li> </ul> <p>Bydd yr atgyfeiriwr yn derbyn cydnabyddiaeth o dderbyn llythyr atgyfeirio gyda manylion ESW neilltuedig a dyddiad ar gyfer apwyntiad asesiad cychwynnol.</p> |  |  |
| <b>A5+</b> | <p>Asesiad ac Ymyrraeth gan y Gwasanaeth ESW:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu ac adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr fel y bo angen.</li> <li>• Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyfarfod i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran yr ysgol a nodwyd yn yr asesiad gwaith cymdeithasol. Yr ysgol i drefnu cyfarfod (Gweler yr enghraifft o lythyr A5+)</li> <li>• Cyfarfod i drefnu cynllun. Trefnu dyddiad yn y cyfarfod i adolygu ar ôl pythefnos.</li> </ul>                    |  |  |



- Yr ysgol i anfon gwahoddiad i gyfarfod adolygu ynghyd â chopïau o gofnodion cyfarfodydd a Chynllun Cefnogi Presenoldeb (gweler yr enghraifft o lythyr adolygu A5+, rhoi copi i'r ESW).

|           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |  |
|-----------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| <b>A6</b> | <p>Cyfarfod Panel Presenoldeb y Llywodraethwyr</p> <p>Gwahoddedigion: Y Pennaeth, Llywodraethwr â chyfrifoldeb dros bresenoldeb, Wayne Wheatley, ESW, cynrychiolwyr lechyd os yn briodol, y rhiant/rhieni/gofalwr/gofalwyr a'r disgybl.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yr ysgol i drefnu cyfarfod – anfon llythyr at y rhiant/gofalwr yn defnyddio'r gwasanaeth danfoniad cofnodedig, copi i ESW.</li><li>• Y rhiant/gofalwr a'r myfyriwr i gyfarfod â Phanel Presenoldeb y Llywodraethwyr (cyfarfod i'w drefnu naill ai gan y Rheolwr Tîm ESW neu'r Pennaeth).</li><li>• Trafodir camau cyfreithiol.</li><li>• Egluro a chytuno ar y Cynllun Cefnogi Presenoldeb (CCP).</li><li>• Trefnu dyddiad adolygu ar gyfer y rhiant, disgybl, uwch arweinydd a ESW. (Uchafswm o 4 wythnos ar ôl y cyfarfod). Yr ysgol i anfon llythyr atgoffa A6+ i'r rhiant cyn y cyfarfod, copi i'r ESW – gweler y llythyr A6+.</li></ul> |  |
|-----------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|

|            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |  |  |
|------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| <b>A6+</b> | <p>Cyfarfod adolygu ag uwch aelod staff, ESW, y rhiant/gofalwr a'r plentyn</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygu cynnydd y Cynllun Cefnogi Presenoldeb (CCP)</li><li>• Mynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd heb gael sylw.</li><li>• Cytuno ar ddyddiad adolygu os oes angen neu wneud penderfyniad os cyflwynir rhybudd cyfreithiol.</li><li>• Os nad oes gwelliant, ystyried erlyn.</li></ul> |  |  |
|------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

## Atodiad 2

### Arferion Da – Dadansoddi Data Presenoldeb

Mae gan ysgolion lawer o wybodaeth am bresenoldeb y dylid ei defnyddio wrth gynllunio yn strategol a chysylltu'n effeithiol â'r Gwasanaeth Lles Addysg a thrwy hynny alluogi ysgolion i reoli materion presenoldeb yn fwy effeithiol.

Y cyswllt â'r gwaith hwn yw staff gweinyddol mewn ysgolion sy'n defnyddio SIMS yng nghyswllt data presenoldeb. Mae angen i ysgolion wybod sut i ddefnyddio SIMS yn effeithiol i ddarparu data ar gyfer y timau rheoli ysgol sy'n monitro presenoldeb.

Gall staff ysgolion gael hyfforddiant ar hyn trwy'r Gwasanaethau Addysg trwy gysylltu ag Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Lles Addysg.

### STRATEGAETHAU AR GYFER HYRWYDDO PRESENOLDEB DA

- Dylai ymrwymiad yr ysgol i gyflawni lefelau uchel o bresenoldeb fod yn gwbl glir i ddisgyblion, staff a rhieni.
- Dylid atgoffa disgyblion yn barhaus am bwysigrwydd a gwerth presenoldeb a phrydlondeb da.
- Rhaid i'r ysgol sicrhau bod profiadau disgyblion yn y dosbarth yn gadarnhaol ac yn eu cyfoethogi, gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a dangos eu hymrwymiad iddo.
- Dylid sicrhau bod holl staff yr ysgol wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r codau cofrestru yn briodol. Mae hyfforddiant ar gael gan y Gwasanaeth Lles Addysg ar gais.
- Dylid edrych ar opsiynau/posibiliadau eraill o ran cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion y mae'n anodd ymgysylltu â hwy.
- Dylid sicrhau bod cyfleoedd i wobrwyo presenoldeb yn cael eu trefnu o fewn calendr yr ysgol.
- Dylid trafod targedau presenoldeb unigol gyda disgyblion; mae angen i staff allweddol fonitro'r gwaith hwn.
- Mae angen egluro i rieni, trwy gylchlythyrau, y gwahaniaeth rhwng absenoldeb wedi'i awdurdodi a heb ei hawdurdodi.
- Defnyddio gwefan yr ysgol i hyrwyddo perfformiad yr ysgol o ran presenoldeb yn wythnosol.
- Sicrhau bod gwybodaeth allweddol am ddisgyblion yn cael ei rhannu ar yr adeg y maent yn trosglwyddo.

- Defnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo presenoldeb da yn eich ysgol.
- Gweithio'n agos â chorff llywodraethu'r ysgol a darparu diweddariadau am bresenoldeb mewn cyfarfodydd llywodraethwyr.
- Defnyddio'r Archwiliad Presenoldeb i werthuso systemau eich ysgol yn gynnar.
- Defnyddio systemau gwobrwyo i ddathlu llwyddiant disgyblion ac i hysbysu rhieni.

## **HMS A HYFFORDDIANT**

Gellir darparu a hwyluso HMS a hyfforddiant gan y Gwasanaethau Addysg, y Gwasanaethau Cwsmer a'r Gwasanaeth Lles Addysg i bob ysgol, sy'n cynnwys y materion canlynol (nodwch os gwelwch yn dda nad yw hon yn rhestr gyflawn):

- Arferion da o ran cadw cofrestr
- Strategaethau ar gyfer hyrwyddo presenoldeb rheolaidd
- Strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus
- Cyfathrebu â rhieni
- Arferion da o ran monitro prydlondeb
- Ailintegreiddio plant a fu'n absennol am gyfnod hir
- Gwobrau a chymhelliant
- Cysylltu ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb
- Trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd

**Atodiad 3** Cofnod o Gyfarfod Presenoldeb a Chynllun Cefnogi Presenoldeb

| Ysgol | Enw'r Disgybl | Dyddiad Geni | Grŵp blwyddyn/dosbarth | Dyddiad y cyfarfod |
|-------|---------------|--------------|------------------------|--------------------|
|       |               |              |                        |                    |

| Cod Cyfarfod Presenoldeb | AA1 | AA2 | A4 | A4+ | A5 | A5+ | A6 |
|--------------------------|-----|-----|----|-----|----|-----|----|
|                          |     |     |    |     |    |     |    |

| % Presenoldeb ar y Cyfan yn y cyfarfod diwethaf | Absenoldeb awdurdodedig | Absenoldeb anawdurdodedig | Prydlondeb (U) | Sylwadau/patrymau presenoldeb eraill |
|-------------------------------------------------|-------------------------|---------------------------|----------------|--------------------------------------|
|                                                 |                         |                           |                |                                      |

| % Presenoldeb ar y cyfan yn y cyfarfod hwn | Absenoldeb awdurdodedig | Absenoldeb anawdurdodedig | Prydlondeb (U) | Sylwadau/patrymau presenoldeb eraill |
|--------------------------------------------|-------------------------|---------------------------|----------------|--------------------------------------|
|                                            |                         |                           |                |                                      |

| Tuedd Presenoldeb ar y Cyfan | Yn gwella | Yn dirywio |
|------------------------------|-----------|------------|
|                              |           |            |

| Pwy sy'n bresennol yn y cyfarfod heddiw? | Pwy sydd wedi cynnig eu Hymddiheuriadau? | Pwy sydd wedi cael gwahoddiad ond heb ymateb? |
|------------------------------------------|------------------------------------------|-----------------------------------------------|
|                                          |                                          |                                               |

|  |  |  |
|--|--|--|
|  |  |  |
|  |  |  |
|  |  |  |

|                                                                                                      |                                       |                                   |                                                                     |                                                                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------|---------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| <b>A yw'r cyfarfod yn gallu mynd yn ei flaen heddiw?</b>                                             | <b>Ydy</b>                            |                                   | <b>Na</b>                                                           |                                                                 |
| <b>*Disgyblion uwchradd - gellir cynnal cyfarfod gyda'r disgybl yn absenoldeb y rhieni/gofalwyr.</b> |                                       |                                   |                                                                     |                                                                 |
| <b>Os na, pam ddim?</b>                                                                              |                                       |                                   |                                                                     |                                                                 |
| <b>Y Camau Nesaf</b>                                                                                 | <b>Aildrefnu ar yr un lefel ysgol</b> | <b>Mynd i'r lefel ysgol nesaf</b> | <b>Atgyfeiriad i'r ALL gan ddilyn llwybr Rhybudd Cosb Benodedig</b> | <b>Atgyfeiriad at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (AGC).</b> |

**Cynllun Cefnogi Presenoldeb**

Tudalen 55

| Yr hyn a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i gefnogi gwelliant mewn presenoldeb.<br>(*trosglwyddo camau a gytunwyd yn y cyfarfod cychwynnol) | Adolygu Cynnydd Canlyniadau |                           |                 |           |                 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|---------------------------|-----------------|-----------|-----------------|
|                                                                                                                                            | Wedi ei gyflawni            | Wedi'i gyflawni'n rhannol | Heb ei gyflawni | Yn parhau | Dyddiad gorffen |
| Ysgol (cymorth ysgol mewnol)                                                                                                               |                             |                           |                 |           |                 |
| Authorised absence   | 11,959             | 1.5%                     | 13,265   | 1.7%                     | 12,307   | 1.5%                     |
| Unauthorised absence | 7,944              | 1.0%                     | 6,062    | 0.8%                     | 4,922    | 0.6%                     |
| Total absence        | 19,903             | 2.5%                     | 19,327   | 2.4%                     | 17,229   | 2.2%                     |
|                      |                    |                          |          |                          |          |                          |
|                      |                    |                          |          |                          |          |                          |
|                      | Secondary absences |                          |          |                          |          |                          |
|                      | September          |                          | October  |                          | November |                          |
|                      | Sessions           | % of possible attendance | Sessions | % of possible attendance | Sessions | % of possible attendance |
| Authorised absence   | 16,942             | 2.3%                     | 20,867   | 2.8%                     | 19,745   | 2.6%                     |
| Unauthorised absence | 9,760              | 1.3%                     | 11,876   | 1.6%                     | 10,970   | 1.5%                     |
| Total absence        | 26,702             | 3.6%                     | 32,743   | 4.4%                     | 30,715   | 4.1%                     |

**A1.3** Throughout the last two school years' schools and the education welfare service have actively worked together to reduce absence levels post pandemic, numbers of referral to the service have increased by over a third. **Current levels of allocation to the four staff in the service are above 25 cases each requiring intensive intervention working with schools**, families, and other Denbighshire services and third sector services.

**A1.4** The additional staff appointed through the Welsh Government LAEG grant have increased the service staffing with two family engagement officers working across the county. The focus of the roles is to provide a greater level of daily contact with families and children assisting with routines, management of home to school plans, working with staff in school to address any issues that impact on the pupil attending school and looking at the detail of planning to improve engagement and reduce barriers to learning.

**A1.5** An additional grant for 23/24 relating to school attendance from the Welsh Government has also been received to appoint two attendance support officers working with the education welfare service to increase capacity and manage the higher levels of referral from schools.

**A1.6** Schools also have named education welfare officers attending their multi-agency meetings (MAP) where vulnerable pupils are discussed offering additional support and interventions some of these pupils receive help from the EWO assigned to the high school MAP but also work alongside colleagues in schools, education services, Llywbrau service, Educational Psychologists and Behaviour Support and importantly Children Services and health to address the complex needs of vulnerable children.

**A1.7** The EWO service have in place a rota each week where schools can seek advice or request intervention and attendance at meetings in any school each week with cases that require immediate attention. These can be relating to, social and community needs, family breakdown, school admission, children missing education Children Missing in Education (CME) where families leave the authority with no destination provided to schools or services.

**A1.8** Schools causing concern do receive contact and reports from the education welfare service to discuss and address their data on attendance on their school management system (SIMS). This highlights issues and links to attendance codes patterns, pupil level concerns, and other distinguishing patterns relating to school procedures and data collection.

**A1.9** 54 % of contact and calls to the EWO helpdesk relate to mental health concerns, social anxiety and self – harm suicidal ideation of young people previously this was significantly lower in terms of main reason for contact.

Since January 2022 87 % of referrals to the EWO service from schools identify mental health as a significant factor in the pupils needs.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Gwyliau yn ystod y Tymor

## MYND AR WYLIAU YN YSTOD Y TYMOR

### CANLLAW I RIENI

#### CWESTIYNAU CYFFREDIN

##### A oes gen i hawl i dynnu fy mhientyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol?

- Nac oes. Mae gan rieni ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol neu'r ddarpariaeth arall yn rheolaidd
- Mae Deddf Addysg 1996, yn ei gwneud yn drosedd i riant "fethu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol"
- Ein barn yw na ddylid cymeradwyo unrhyw wyliau yn ystod y tymor
- Ni ddylai Penaethiaid ganiatáu unrhyw absenoldeb (gwyliau) yn ystod tymor oni bai bod amgylchiadau eithriadol
- Nid oes gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor

##### Os byddwn yn penderfynu cymryd gwyliau yn ystod y tymor beth sy'n rhaid i ni ei wneud?

- Rhaid i riant/gofalwr sydd yn byw gyda'r plentyn wneud cais ar bapur i Bennaeth yr ysgol lle mae'r plentyn wedi'i g/chofrestru
- Rhaid i'r llythyr/cais egluro beth yw'r amgylchiad eithriadol ar gyfer y cais am yr absenoldeb

##### Beth fydd yr ysgol yn ei wneud wedyn?

- Bydd y Pennaeth yn penderfynu a yw'r amgylchiadau eithriadol yn gymwys, os nad ydynt, bydd y cais yn cael ei wrthod
- Dim ond y Pennaeth (neu'r Dirprwy) sydd â'r grym i gymeradwyo ceisiadau absenoldeb. Wrth wneud ei b/penderfyniad, bydd y Pennaeth yn ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn (Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan) (2011)
- Bob blwyddyn academiaidd, mae ysgolion yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr drwy gyfrwng llythyr, newyddlen, neu wefan yr ysgol, y gallant dderbyn Rhybudd Cosb Benodedig os oes gan eu plentyn absenoldebau heb eu hawdurdodi (10 diwrnod neu fwy) yn ystod y tymor
- Byddwch yn derbyn ymateb ysgrifenedig oddi wrth y Pennaeth (neu'r Dirprwy) yn rhoi gwybod i chi os yw eich cais wedi cael ei gymeradwyo
- **Os byddwch yn parhau â'r gwyliau ar ôl i'r cais gael ei wrthod, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi yn un heb ei awdurdodi**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PRESENOLDEB YN YR YSGOL****Pam bod ysgol a phrydlondeb yn bwysig?****Gan fod pob eiliad yn cyfrif:**

- Mae 5 munud yn hwyr bob dydd yn golygu bod tri diwrnod cyfan o ysgol yn cael eu colli bob blwyddyn
- Mae 95% o bresenoldeb yn cyfateb i golli pythefnos o addysg mewn blwyddyn ysgol
- Mae presenoldeb gwael yn effeithio ar ddysgu
- Mae presenoldeb gwael yn effeithio ar ganlyniadau yn y dyfodol
- Mae presenoldeb yn effeithio ar les ac ymdeimlad o berthyn

**Mae'r ysgol yn pryderu am bresenoldeb eich plentyn ac maent yn mynd i gysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg. Beth fydd y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg yn ei wneud?**

- Cysylltu â chi i drefnu cyfarfod
- Cyfarfod i drafod y rhesymau dros bresenoldeb gwael eich plentyn a thrafod eich pryderon.
- Rhoi cymorth a chyngor i wella presenoldeb eich plentyn.
- Asesu'r sefyllfa a chytuno ar gynllun cefnogaeth gyda chi, eich plentyn a'r ysgol
- Trafod gyda'r ysgol ynghylch defnyddio Rhybudd Cosb Benodedig
- Dechrau camau cyfreithiol mewn achosion lle nad yw presenoldeb yn yr ysgol yn gwella.

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg  
drwy ffonio

01824 – 708064

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Rhybudd Cosb Benodedig

## ABSENOLDEB HEB EI AWDURDODI

Yn berthnasol i

Oed Ysgol Statudol o 5ed Pen-blwydd y Plentyn

Beth fydd yn digwydd os bydd yr absenoldeb yn un heb ei awdurdodi?

- Bydd yr ysgol yn penderfynu a ddylid rhoi Rhybudd Cosb Benodedig. Os yw'r ysgol yn penderfynu y dylid rhoi Rhybudd Cosb Benodedig
- Byddwch yn derbyn llythyr gan yr ysgol yn rhoi gwybod bod y mater wedi cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Lleol ac y gallai Rhybudd Cosb Benodedig gael ei roi:
- Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol fod angen rhoi Rhybudd Cosb Benodedig
- Fe anfonir Rhybudd Cosb Benodedig atoch, ynghyd â llythyr esboniadol, mae'r Rhybudd yn rhoi'r cyfle i chi dalu'r ddirwy yn hytrach na chael eich erlyn yn y llysoedd

| Cosbau am absenoldeb heb awdurdod  |                                                                                                                                               |                                                                                                                                               |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Llinell Amser                      | Un Plentyn                                                                                                                                    | Dau Blentyn                                                                                                                                   |
| Talwyd o fewn 28 diwrnod           | £60 y rhiant                                                                                                                                  | £60 y plentyn = £120 y rhiant                                                                                                                 |
| Ar ôl 28 diwrnod a chyn 42 diwrnod | £120 y rhiant                                                                                                                                 | £120 y plentyn = £240 y rhiant                                                                                                                |
| Ar ôl 42 diwrnod                   | Byddwch yn derbyn gwŷs i ymddangos o flaen Llys Ynadon ar y sail eich bod wedi methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eich plentyn yn yr ysgol | Byddwch yn derbyn gwŷs i ymddangos o flaen Llys Ynadon ar y sail eich bod wedi methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd eich plentyn yn yr ysgol |



**Ni dderbynnir taliadau ar ôl 42 diwrnod, ac ni ellir talu'n rhannol  
neu mewn rhan-daliadau**

**Gall pob ysgol roi rhif cyswllt y Gwasanaeth Gwaith  
Cymdeithasol Addysg i chi os hoffech chi drafod y mater hwn  
ymhellach:**

**Ceir manylion am Rhybudd Cosb Benodedig ar ein Gwefan**

**[www.denbighshire.gov.uk](http://www.denbighshire.gov.uk)**

**Mae taflenni eraill ar gael gan yr ysgol lle mae eich plentyn  
wedi'i ch/gofrestru, neu gan y Gwasanaethau Addysg**

- **Helpu eich "Presenoldeb Ysgol"**
- **Cymru Plant ar Wyliau yn ystod y Tymor**

***Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu berson  
ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond  
sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn.***

## Canllaw cyflym ar



### RHYBUDDION COSB BENODEDIG AM DDIFFYG PRESENOLDEB YN YR YSGOL

COLLI'R YSGOL. EICH COLLED CHI !



O dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, rhoddwyd y grym i Awdurdodau Lleol roi Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) fel dewis arall yn hytrach na chymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhieni/gofalwyr wrth ymateb i absenoldeb heb ganiatâd o'r ysgol.

Mae'r broses ar waith yn Sir Ddinbych ers 1 Medi 2015. Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu cryno o'r amgylchiadau y bydd FPN yn cael ei ddefnyddio.

#### **Beth yw Hysbysiad Cosb Benodedig?**

Mae'n ddirwy am absenoldeb heb awdurdod o'r ysgol. Nid oes angen ymddangos yn y llys ac nid yw'n arwain at record droseddol. Mae Talu Hysbysiad Cosb Benodedig yn ddewis arall i rieni yn hytrach na chael eu herlyn yn y Llys Ynadon.

#### **Beth yw absenoldeb heb ganiatâd?**

Mae'n absenoldeb o'r ysgol nad oes cyfiawnhad iddo nac yr ystyrir yn dderbyniol gan y pennaeth. (Noder, Dim ond Pennaeth ysgol eich plentyn all awdurdodi absenoldeb disgybl)

#### **Pwy sy'n rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig?**

Yr Awdurdod Lleol sy'n eu rhoi, ar gais y penaeithiaid.

#### **Pryd maen nhw'n cael eu rhoi?**

- pan fydd disgybl yn absennol heb ganiatâd am o leiaf 10 diwrnod mewn blwyddyn ysgol (nid oes rhaid iddynt fod yn ddiwrnodau olynol)
- am absenoldeb gwyliau heb ganiatâd. Cynghorir rhieni y gall cymryd gwyliau teuluol yn ystod y tymor arwain at roi HCB
- Os nad yw rhiant/rhieni, gofalwr/gofalwyr yn ceisio ymgysylltu â'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol ynghylch absenoldeb eu plentyn
- Os yw plentyn yn dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol, gall awdurdod yr heddlu ofyn i'r Awdurdod Lleol roi HCB.

Cyn rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig, byddwch yn derbyn llythyr o rybudd ar ôl 5 diwrnod o absenoldeb heb ganiatâd yn amlinellu nifer y dyddiau y bu eich plentyn yn absennol a'r posibilrwydd y byddwch yn derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig.

# Canllaw cyflym ar

Ni fydd llythyr rhybuddio yn cael ei roi pan gymerir 10 neu fwy o ddiwrnodau o wyliau heb ganiatâd yn ystod y tymor. Bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyhoeddi dan yr amgylchiadau hyn.

## **Rwyf wedi derbyn llythyr rhybuddio ac eisiau osgoi Rhybudd Cosb. Beth ddylwn ei wneud?**

- Sicrhau fod eich plentyn yn mynd i'r ysgol bob dydd ac yn cyrraedd yn brydlon,
- Os yw eich plentyn yn sâl gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r ysgol ar y diwrnod cyntaf ac yn egluro'r amgylchiadau
- Ceisiwch osgoi trefnu gwyliau yn ystod y tymor.

## **Faint yw cost y ddirwy?**

£60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad, ac yn codi i £120 os telir ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i'w dderbyn.

Penderfyniad i'r Awdurdod Lleol yw a ddylid rhoi HCB i un neu ddau riant/gofalwr.

## **Sut ydw i'n talu?**

Bydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei anfon drwy'r post i'ch cyfeiriad cartref a bydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut i dalu.

## **Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu?**

Os na fyddwch yn talu'r gosb yn llawn o fewn yr amserlen uchafswm a ganiateir o 42 diwrnod o'i gyflwyno, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Lleol ddechrau achos cyfreithiol yn eich erbyn am drosedd o dan Adran 444 (1) Deddf Addysg 1996 h.y. am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Gall hyn arwain at ymddangosiad yn y llys ynadon ac at ddirwy o hyd at £1,000 fesul rhiant am bob plentyn.

## **A oes modd apelio?**

Na, nid oes hawl statudol i apelio. Unwaith y rhoddir Hysbysiad Cosb Benodedig bydd ond yn bosibl ei dynnu'n ôl os gellir dangos y cafodd ei roi ar gam.

## **A fydd yn bosibl i mi gael fe erlyn os byddaf yn talu'r HCB?**

Gallwch gael eich erlyn am yr un cyfnod o absenoldeb a nodwyd yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig ond gallech gael eich erlyn yn dilyn hynny am gyfnodau pellach o absenoldeb heb ganiatâd o'r ysgol.

Mae pob achos yn cael ei ystyried yn unigol.

## **Pam fod presenoldeb yn yr ysgol mor bwysig?**

## Canllaw cyflym ar

- Mae presenoldeb da yn cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad,
- Mae presenoldeb da yn gwella cyfleoedd,
- Mae presenoldeb da yn cefnogi plant a phobl ifanc ac yn eu cadw'n fwy diogel
- Mae mynd i'r ysgol yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb.

### COFIWCH

Byddai'n well gan yr Awdurdod Lleol weithio gyda rhieni/gofalwyr i ddatrys presenoldeb gwael na throi at gamau gorfodi fel Hysbysïadau Cosb Benodedig neu'r Llys.

I gael help neu gyngor pellach cysylltwch â'r Gwasanaethau Addysg ar:

Gwasanaethau Addysg

Ffôn 01824 - 708064

e-bost: [schoolfpn@denbighire.gov.uk](mailto:schoolfpn@denbighire.gov.uk)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                |                                                                                                                             |
|--------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>           | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                                                                                          |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>      | <b>25 Ionawr 2024</b>                                                                                                       |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b> | <b>Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth / Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau</b> |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b>     | <b>Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau</b>                                                                                |
| <b>Awdur yr adroddiad</b>      | <b>Deborah Owen, Prif Lyfrgellydd</b>                                                                                       |
| <b>Teitl</b>                   | <b>Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd</b>                                                                    |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn erbyn y safonau cenedlaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (wedi'i ymestyn i 21-23) a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel manau lles a chadernid unigol a chymunedol.

2.2. Dylid nod fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Ni ddisgwylir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ar berfformiad y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad yn glir tan fis Ebrill 2024 ar y cynharaf.

2.3. Disgwylir y bydd Safonau Cenedlaethol Newydd yn cael eu sefydlu gyda chyhoeddiad 7fed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, sydd â dyddiad gweithredu arfaethedig o1 Ebrill 2025

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac ystyried gwneud cais am adroddiad ar gynnydd ym mis Ionawr 2025.

### **4. Manylion yr adroddiad**

#### **4.1. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

4.2. O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 mae ar yr holl awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'w preswylwyr. Mae Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn galluogi Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru (ADChLIC) i fesur ac asesu sut y mae awdurdodau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol.

4.3. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r ADChLIC ar ei berfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol, gydag ADChLIC yn cyflwyno Adroddiad Asesu Blynyddol mewn ymateb. Mae'r Adroddiad Asesu Blynyddol diweddaraf yn ymwneud â'r cyfnod 2022-23 a pherfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith 2017-20 (wedi'i ymestyn hyd 2023) yn ei gyfanrwydd, ac yn cynnwys 12 Hawl Craidd a 10 Dangosydd Ansawdd â thargedau penodol. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm fel Atodiad A.

4.4. Mae Sir Ddinbych yn parhau i fodloni pob un o'r 12 Hawl Craidd. O'r 10 dangosydd ansawdd (DA) sydd â thargedau, mae Conwy yn cyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol. Gw. tudalen 2 o'r Adroddiad Asesu Blynyddol yn Atodiad A.

4.5. DA 3: Cefnogi datblygiad unigol. Wedi'i fodloni'n llwyr

4.6. DA 4: Cefnogi iechyd a lles. Wedi'i fodloni'n llwyr

Daeth y Pwyntiau Siarad yn ôl i bob llyfrgell yn 2022-23 gan roi cyfle i bobl gael sgwrs wyneb yn wyneb ynglŷn â chynnal ffordd o fyw annibynnol a chael mynediad at gymorth a gweithgareddau lleol. Mae hon yn ymdriniaeth rhagnodi cymdeithasol



a ddarperir mewn partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol i Oedolion, y trydydd sector a'r llyfrgelloedd. Mae'r llyfrgelloedd yn rhan annatod o strategaethau a chynlluniau gweithredu Oed-gyfeillgar a Deall Dementia yr Awdurdod. Dangosodd arolwg diweddar o rieni Dechrau Da yr effeithiau da arwyddocaol y mae mynychu amser rhigwm yn y llyfrgelloedd yn ei gael ar iechyd meddwl rhieni, yn cynnwys helpu i ddod dros iselder ôl-enedigol.

4.7. DA 6: Mae pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig. Wedi'i fodloni'n llwyr

Cafwyd ffigwr presenoldeb o dros 22,133 mewn digwyddiadau a gweithgareddau mewn llyfrgelloedd. Mae hyn yn cynnwys grwpiau darllen, gweithgareddau i blant, digwyddiadau cyfarfod awduron ac amrywiaeth o grwpiau ymgysylltiad cymdeithasol i leihau ynysigrwydd ac unigrwydd. Roedd 55% o'r ffigwr yn bresenoldeb yn sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da

4.8. DA 7: Lleoliad pwyntiau gwasanaeth. Wedi'i fodloni'n llwyr

4.9. DA 8: Deunydd darllen cyfredol a phriodol. Wedi'i fodloni'n llwyr

Caffaelwyd 23,973 o eitemau yn 2022-23. Mae hyn yn cynnwys y teitlau unigol a oedd ar gael drwy danysgrifiadau i ddau safle lawrlwytho digidol, Press Reader (papur newydd) ac Overdrive (cylchgrawn) - cyfanswm o 11.315 o deitlau.

Cyfanswm y llyfrau 'go iawn' a'r llyfrau sain oedd 11,791. Roedd yr adroddiad yn nodi bod Sir Ddinbych yn dangos ymrwymiad cryf i ddarpariaeth plant, gyda 25% o'r adnoddau'n cael eu gwario ddeunyddiau i blant.

4.10. DA 8: Adnoddau Cymraeg. Wedi'i fodloni'n llwyr

Roedd 71% o'r deunyddiau Cymraeg a fenthycwyd yn llyfrau plant - gyda dim ond 2 siop lyfrau yn y sir, y llyfrgell leol yw'r brif ffynhonnell o lyfrau Cymraeg i blant.

Mae'r ffigwr hwn hefyd yn adlewyrchu'r cyfranogiad uchel yn Her Ddarllen yr Haf bob blwyddyn. Mae Sir Ddinbych ymysg y chwarterel uchaf o awdurdodau llyfrgell o ran cyfran y gyllideb ddeunyddiau a neilltuir i adnoddau iaith Gymraeg ac yn uwch na'r canolrif o ran deunyddiau Cymraeg a fenthycir fesul pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

4.10.1. DA 8: Mynediad Ar-lein. Wedi'i fodloni'n llwyr

Mae lefel y defnydd o TGCh cyhoeddus yn llawer is nag yr oedd cyn y pandemig, sy'n adlewyrchu'r tueddiad cyffredinol i bobl feddu ar eu dyfeisiadau eu hunain. Ar ôl Covid cyflwynwyd gliniaduron digidol unigol wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith ym mhob llyfrgell i gwsmeriaid eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd ac ymgynghoriadau preifat ar-lein. Mae'r cyfleuster argraffu newydd wedi'i gysylltu â'r cwmwl yn golygu y gall defnyddwyr argraffu eu gwybodaeth drwy'r ciosg hunan-wasanaeth neu gyda chymorth aelod o staff heb orfod defnyddio'r cyfrifiaduron cyhoeddus. Bydd hyn hefyd wedi cyfrannu at y ffigwr defnyddio is.

#### 4.10.2. DA 12: Cyflenwi eitemau y gwnaed cais amdanynt. Wedi'i gyflawni'n rhannol

Cafodd darpariaeth ein system fewnol i gyflenwi eitemau y gwnaed cais amdanynt ei gwtogi o 5 i 3 diwrnod yn 2021 oherwydd pwysau cyllidol, ac mae hyn - wedi'i gyfuno â'r ffaith nad yw pob llyfrgell ar agor bob dydd, yn golygu ei bod yn cymryd ychydig yn hirach i ddarparu eitemau o'r fath.

#### 4.10.3. DA 13: Lefelau staffio a chymwysterau. Wedi'i fodloni'n rhannol

Ni fu unrhyw newid yn y lefelau staffio cyffredinol ond nid yw Sir Ddinbych yn cyrraedd y targedau ar gyfer lefelau staffio cyffredinol na staff cymwys fesul pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag mae'n werth nodi fod y rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn y gwasanaeth yn siopau un alwad, a bod y rhan fwyaf o staff rheng flaen, goruchwyliol a rheolaethol yn treulio tua 50% o'u hamser ar eu rolau Gwasanaeth Cwsmeriaid felly dim ond 50% o'r lefel staffio sy'n cael ei adrodd fel darpariaeth llyfrgell.

#### 4.11. DA 16: Oriau Agor Fesul Pen Wedi'i fodloni'n llwyr

Mae oriau agor erbyn hyn yn ôl i lefelau cyn Covid, ac eithrio gostyngiad o hanner diwrnod yr un yn llyfrgelloedd Rhuthun a Dinbych.

#### 4.12. Roedd yn angenrheidiol hefyd i awdurdodau gyflwyno adroddiad naratif yn cynnwys yr effaith y mae'r llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn, sylwadau ar gyfraniad y gwasanaeth tuag at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru, ac i fyfyrion ynghylch cyfeiriad a chynlluniau'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn y dyfodol. Gweler yr adroddiad naratif ar gyfer Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

5.1. Mae ar yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol dros y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac mae ei wasanaethau'n cyfrannu at nifer o amcanion a themâu corfforaethol, yn cynnwys Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar; Sir Ddinbych sy'n dysgu ac yn tyfu; Sir Ddinbych sydd wedi'i chysylltu'n well; Sir Ddinbych decach, diogel a mwy cyfartal; Sir Ddinbych â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chynhyrchu'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les gan mai adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn. Fodd bynnag mae'r 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgell yn dangos y cyfraniad amlwg sydd gan lyfrgelloedd i'w wneud tuag at wireddu saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Ym mis Mawrth 2023 ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad asesiad Llywodraeth Cymru o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2021-22. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau pellach ynghylch yr adroddiad penodol hwn.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Adroddiad ar berfformiad hanesyddol yw hwn ac nid oes iddo unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

## **10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Gan mai adroddiad ar berfformiad hanesyddol yw hwn, nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig ag o.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn pennu y gall y Pwyllgor Craffu “adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i bolisiâu, ei amcanion, ei dargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol”.

## Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Sir Ddinbych

### Adroddiad Asesu Blynyddol 2022/2023

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

#### 1. Crynodeb gweithredol

Roedd Sir Ddinbych yn bodloni'r 12 hawl graidd yn llawn. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol.

Mae Sir Ddinbych yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, yn enwedig mewn perthynas â mynediad, gyda phresenoldeb mewn digwyddiadau, ymweliadau y pen a benthycwyr gweithredol i gyd uwchlaw'r canolrif. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda ar gyfer e-faterion ac yn dangos ymwybyddiaeth o'r gofynion newidiol ar ddarpariaeth TG mewn llyfrgelloedd. Mae Sir Ddinbych yn dangos ymrwymiad i ddarparu adnoddau plant ac adnoddau Cymraeg, ac mae hefyd yn dangos ymrwymiad i ddiwallu anghenion pobl ifanc o fewn ei gynlluniau datblygu yn y dyfodol. Er bod Sir Ddinbych yn perfformio'n dda ar hyn o bryd ac mae ganddi gynlluniau ystyriol ar gyfer ei gyfeiriad tymor byr yn y dyfodol, mae pryderon ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn gallu ymateb yn y tymor canolig os bydd y toriadau a ragwelir i wasanaethau llyfrgell yn 2024-25 yn dwyn ffrwyth. Yn y cyd-destun hwn, mae'n arbennig o bwysig bod y gwasanaeth yn cynnal arolygon defnyddwyr yn 2023-2024 neu 2024-25 i sicrhau bod darpariaeth llyfrgelloedd yn diwallu anghenion cwsmeriaid.

- Mae hyfforddiant defnyddwyr yn boblogaidd ymhlith defnyddwyr y llyfrgell; mae presenoldeb mewn hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr a hyfforddiant anffurfiol yn uwch na'r canolrif (DA5).
- Mae llyfrgelloedd yn cael eu defnyddio'n dda; mae ymweliadau fesul cyfalaf ac ymweliadau rhithwir y pen yn uwch na'r canolrif ac mae nifer y benthycwyr gweithredol y pen yn chwarterl uchaf gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru (DA8).
- Mae darpariaeth Gymraeg yn cael cefnogaeth dda, yn enwedig deunyddiau plant; mae Sir Ddinbych yn chwarterl uchaf awdurdodau llyfrgell am gyfran y gyllideb deunyddiau sydd wedi'i neilltuo i adnoddau Cymraeg (DA10).
- Mae Sir Ddinbych yn perfformio'n well na'r canolrif ar gyfer cau manau gwasanaeth sefydlog heb rybudd, ac ni fethwyd unrhyw arosfannau symudol na gwasanaethau danfoniadau i'r cartref (DA16).

#### 2. Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

## **2.1. Hawliadau craidd**

Adroddodd Sir Ddinbych gwrdd â phob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesiad, gan ddarparu sylwebaeth ddefnyddiol lle bu newidiadau o'r flwyddyn flaenorol. Cytunodd yr asesydd annibynnol gyda'r hunanasesiad.

## **2.2. Dangosyddion ansawdd â thargedau**

Mae 16 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 10 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn a 2 yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd                                                                                             | Cyflawni? |                    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|--------------------|
| DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:                                                                   |           | Cyflawni'n llawn   |
| a) Cymorth TGCh                                                                                               | √         |                    |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth                                                             | √         |                    |
| c) Cymorth e-lywodraeth                                                                                       | √         |                    |
| d) Datblygu darllenwyr                                                                                        | √         |                    |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant                                                                |           | Cyflawni'n llawn   |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru                                                                         | √         |                    |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol                                                                                    | √         |                    |
| iii) Casgliad penodol ar iechyd a lles                                                                        | √         |                    |
| iv) Gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac ymddygiad iach                                                         | √         |                    |
| v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles                                                                      | √         |                    |
| DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | √         | Cyflawni'n llawn   |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth                                                                               | √         | Cyflawni'n llawn   |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol                                                                        |           | Cyflawni'n llawn   |
| Caffael fesul pen                                                                                             | √         |                    |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen                                                                   | -         |                    |
| DA 10 Adnoddau yn Gymraeg                                                                                     |           | Cyflawni'n llawn   |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar ddeunyddiau                                                           | √         |                    |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen                                                                     | -         |                    |
| DA 11 Mynediad ar-lein:                                                                                       |           | Cyflawni'n llawn   |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd                                                                       | √         |                    |
| ii) Darparu Wi-Fi                                                                                             | √         |                    |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau                                                                                      |           | Cyflawni'n rhannol |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod                                                             | x         |                    |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod                                                            | √         |                    |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:                                                                         |           | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen                                                                                            | x         |                    |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen                                                                                | x         |                    |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth                                                           | √         |                    |
| iv) Canran DPP                                                                                                | √         |                    |
| DA 16 Oriau agor fesul pen                                                                                    | √         | Cyflawni'n llawn   |

### 2.3. Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi anelu at asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd gyntaf y fframwaith (2017-20) roedd gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n darparu data yn y datganiad 2022-23. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhai awdurdodau wedi cynnal arolygon ers 2020, tra bod eraill yn cofnodi data arolygon ers cyn pandemig Covid. Felly, mae rhai ymatebion yn adlewyrchu'r sefyllfa sawl blwyddyn yn ôl, tra bod eraill o bosibl wedi'u heffeithio gan amhariad yn ystod cyfnod y pandemig. O ganlyniad, mae cyfyngiadau i ba raddau y gellid ystyried cymharu'r data hyn.

Cwblhaodd Sir Ddinbych ei arolwg defnyddwyr oedolion ym mis Tachwedd 2018 a'i arolwg defnyddwyr plant ym mis Chwefror 2020. Ni wnaed arolwg llawn yn 22-23 gan y rhagwelir y bydd arolwg yn cael ei gynnal fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Strategaeth Llyfrgelloedd newydd.

| Dangosyddion perfformiad                                                                                   | Safle          | Isaf   | Canolrif | Uchaf     |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|--------|----------|-----------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth                                                                                    |                |        |          |           |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:                       | 87%            | 12/16  | 58%      | 90% 98%   |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:                           | 78%            | =13/16 | 41%      | 86.5% 96% |
| DA 5 b) % o fynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu nodau. | Heb ei darparu | -      | 82%      | 96% 100%  |

Gofynnir i awdurdodau hefyd ddarparu datganiad effaith sy'n disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Sir Ddinbych ddatganiad effaith ynghylch dyn oedd wedi ymddeol yn gynnar ac sy'n byw gyda dementia. Gan ei fod yn frwdfrydig am wybodaeth ac eisiau parhau i ddysgu er pleser a chadw symbyliad meddyliol, ymwelodd â'r llyfrgell yng nghwmni ei wraig i weld beth allai'r llyfrgell ei gynnig, Canfu'r cwpl fod yr amgylchedd yn gynhwysol ac yn groesawgar ac yn gwerthfawrogi sgiliau aelodau'r staff wrth gyfathrebu â rhywun â dementia. Roedd yr ystod eang o adnoddau ar-lein a chorfforol hefyd yn cael eu gwerthfawrogi; *"Mae'n adnodd hynod o ddefnyddiol a diddorol - rwy'n teimlo'n freintiedig o gael mynediad ato"*. Mae'r llyfrgell yn darparu man ble mae'n teimlo'n gyfforddus yn ymweld ag ef ac sy'n parchu ei annibyniaeth. Mae hefyd yn llawn adnoddau y mae'n eu canfod yn ysgogol ac sydd ar gael am ddim ac sy'n cynnwys cynnig digidol sy'n ei gwneud yn bosib i gael mynediad i'r wybodaeth gartref pryd bynnag y dymunai.

### 2.4. Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn galluogi gwasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill.



Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Ddinbych ar gyfer 2022-23. Mae'r safleoedd wedi'u rhoi allan o 22, lle 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Caiff dangosyddion 'fesul pen' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| <b>Dangosyddion perfformiad</b>                                                               |         | <b>Safle</b> | <b>Isaf</b> | <b>Canolrif</b> | <b>Uchaf</b> |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|---------|--------------|-------------|-----------------|--------------|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth                                                                       |         |              |             |                 |              |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 55%     | 13/16        | 24%         | 69.5%           | 90%          |
| c) iechyd a lles                                                                              | 44%     | =12/16       | 35%         | 66.5%           | 94%          |
| d) yn lle diogel a chroesawgar                                                                | 93%     | =14/16       | 93%         | 97%             | 100%         |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid                                                                   |         |              |             |                 |              |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau                                                          | 82%     | 15/16        | 80%         | 91%             | 99%          |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'                                                        | 96%     | 16/17        | 92%         | 98%             | 100%         |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'                                                         | 65%     | 16/16        | 65%         | 86%             | 99%          |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol                                                          | 94%     | 17/17        | 94%         | 98%             | 100%         |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau                                            | 9.3     | =8/16        | 8.0         | 9.3             | 9.7          |
| DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr                                                               |         |              |             |                 |              |
| a) mynychwyr fesul pen                                                                        | 18      | 7/22         | 1           | 10.5            | 222          |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen                                                          | 424     | 1/19         | 5           | 131             | 424          |
| DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen                                                    |         |              |             |                 |              |
|                                                                                               | 230     | 7/22         | 13          | 165             | 559          |
| DA 8 Defnyddio'r llyfrgell                                                                    |         |              |             |                 |              |
| a) ymweliadau fesul pen                                                                       | 2,495   | 6/21         | 781         | 2,106           | 4,814        |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen                                                                 | 633     | 10/22        | 124         | 537.5           | 7,979        |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen                                                           | 155     | 2/22         | 43          | 106.5           | 167          |
| DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen                                                          |         |              |             |                 |              |
|                                                                                               | 203     | 6/22         | 13          | 53              | 864          |
| DA 11 Mynediad ar-lein                                                                        |         |              |             |                 |              |
| a) Cyfrifiaduron fesul 10,000                                                                 | 10.52   | 4/22         | 3.32        | 7.99            | 16.99        |
| b) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd                                        | 13%     | 7/19         | 7%          | 11%             | 77%          |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau <sup>1</sup>                                             |         |              |             |                 |              |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr                                                                 | 9       | -            | 0           | 8               | 256          |
| b) oriau gwirfoddolwyr                                                                        | 978     | -            | 0           | 583.5           | 14,014       |
| DA 14 Gwariant gweithredol                                                                    |         |              |             |                 |              |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen                                                                | £13,589 | 7/21         | £6,726      | £11,476         | £27,330      |
| b) % ar staff,                                                                                | 63%     | =13/21       | 46%         | 64%             | 78%          |
| % ar adnoddau gwybodaeth                                                                      | 9%      | =16/21       | 5%          | 12%             | 21%          |
| % ar offer ac adeiladau                                                                       | 9%      | 4/21         | 1%          | 3%              | 29%          |
| % ar gostau gweithredol eraill;                                                               | 20%     | =7/21        | 1%          | 15%             | 35%          |
| c) cyfanswm gwariant fesul pen                                                                | £336    | =6/21        | -£479       | £145            | £2,865       |

<sup>1</sup> Yn dilyn trafodaeth gyda'r grŵp adolygu cymheiriaid penderfynwyd peidio â chynnwys safleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr gan fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn amwys.

| Dangosyddion perfformiad                                            |       | Safle | Isaf  | Canolrif | Uchaf |
|---------------------------------------------------------------------|-------|-------|-------|----------|-------|
| DA 15 Cost net am bob ymweliad <sup>2</sup>                         | £2.56 | 9/19  | £0.41 | £2.76    | £6.22 |
| DA 16 Oriau agor <sup>3</sup>                                       |       |       |       |          |       |
| (iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog yn annisgwyl         | 0.04% | 10/22 | 0%    | 0.05%    | 0.95% |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0%    | =1/20 | 0%    | 0%       | 3.74% |

### 3. Dadansoddi Perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r d dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn.

#### 3.1. Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Mae Sir Ddinbych yn cyrraedd y targedau ar gyfer Cymorth ar gyfer Datblygu Unigol (DA3) ac Iechyd a Lles (DA4), gyda'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i les cymunedol. Dychwelodd Pwyntiau Siarad yn llawn i bob llyfrgell yn 22-23. Wedi'i gyflwyno trwy bartneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol i Oedolion, y trydydd sector a llyfrgelloedd, mae'n rhoi cyfle wyneb yn wyneb i bobl gael sgwrs am gynnal bywyd annibynnol a chael mynediad at gymorth a gweithgareddau lleol. Mae llyfrgelloedd wedi'u hymgorffori yn strategaethau a chynlluniau gweithredu Oed-gyfeillgar a Dementia'r awdurdod. Mae presenoldeb mewn hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr a hyfforddiant anffurfiol yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgell (DA5). Mae'r mwyafrif o ddangosyddion a adroddir ar gyfer Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Boddhad cwsmeriaid (DA2) yn is na'r canolrif. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyn yn ymwneud â darpariaeth llyfrgelloedd cyn Covid ac mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn cynnal arolygon pellach yn 2023-24 neu 2024-25 i sicrhau bod darpariaeth llyfrgelloedd yn diwallu anghenion cwsmeriaid.

#### 3.2. Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae presenoldeb mewn digwyddiadau yn uwch na'r canolrif (DA6), fel y mae ymweliadau y pen ac ymweliadau rhithwir y pen (DA8). Mae nifer y benthycwyr gweithredol y pen yn chwarterel uchaf gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru (DA8). Roedd benthycy yn uwch nag yn 21-22 ac mae Sir Ddinbych yn perfformio'n arbennig o dda o ran e-faterion, sydd yn chwarterel uchaf gwasanaethau llyfrgell.

#### 3.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae Sir Ddinbych yn dangos ymrwymiad cryf i ddarpariaeth plant, gyda 25% o'i deunyddiau'n cael eu gwario ar adnoddau plant (DA9). Mae Sir Ddinbych yn chwarterel uchaf awdurdodau llyfrgelloedd ar gyfer cyfran y gyllideb deunyddiau sydd wedi'i neilltuo i adnoddau Cymraeg ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer materion Cymraeg y pen (DA10). Mae'r gwasanaeth yn dweud bod 71% o faterion deunydd Cymraeg ar gyfer llyfrau plant - gyda dim ond dwy siop lyfrau yn y sir, y llyfrgell leol yw prif ffynhonnell llyfrau Cymraeg i blant. Er bod dangosyddion sy'n ymwneud â mynediad ar-lein yn uwch na'r canolrif (DA11), mae Sir Ddinbych yn adrodd bod

<sup>2</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

<sup>3</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

defnyddio TGCh mynediad cyhoeddus ar lefel llawer is na chyn Covid, gan adlewyrchu'r duedd gyffredinol o bobl sydd â'u dyfeisiau eu hunain. Dim ond yn rhannol y gwnaeth y gwasanaeth gyrraedd y targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau yn dilyn gostyngiad yn ei system gyflenwi fewnol oherwydd pwysau cyllidebol (DA12).

### 3.4. Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw Sir Ddinbych yn cyrraedd y targedau ar gyfer staffio cyffredinol neu staff cymwys y pen (DA13). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y ffaith bod y rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn y gwasanaeth yn siopau un stop, ac mae'r rhan fwyaf o staff rheng flaen, goruchwyllo a rheoli yn treulio tua 50% o'u hamser ar eu rolau Gwasanaethau Cwsmeriaid felly dim ond 50% o'r lefel staffio sy'n cael ei nodi fel darpariaeth llyfrgell. Mae'r oriau agor bellach wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid, ac eithrio gostyngiad o hanner diwrnod yr un yn Llyfrgelloedd Rhuthun a Dinbych oherwydd pwysau cyllidebol. Mae Sir Ddinbych yn perfformio'n well na'r canolrif ar gyfer cau pwyntiau gwasanaeth sefydlog yn ddirybudd, ac ni fethwyd unrhyw wasanaethau danfon cartref (DA16).

## 4. Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r ffurflen, gofynnir i awdurdodau adrodd ar sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac amcanion strategol. Mae'r canlynol ymhlith yr enghreifftiau a ddarperir gan Sir Ddinbych.

- **Gwell Iechyd Meddwl:** mynediad i'r ystod lawn o gynlluniau Darllen yn Well a gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau.
- **Sgiliau a Chyflogadwyedd:** mae Sir Ddinbych yn Gweithio, gwasanaeth cyflogadwyedd y cyngor, yn defnyddio cyfleusterau'r llyfrgell i gwrdd â'u cleientiaid a chefnogi pobl â sgiliau digidol ac i chwilio am swyddi.
- **Digidol:** mae staff y llyfrgell yn cynnig help i fynd ar-lein ac i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol; mae llyfrgelloedd yn bartner allweddol yn rhaglen cynhwysiant digidol Sir Ddinbych, gan weithio'n agos gyda Cwmpas.
